**Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 14 i 21 Rhagfyr 2000**

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

25 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

28 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

30 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Penodiadau i Gyrff Cyhoeddus

**Dafydd Wigley:** Faint o benodiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i'r gwahanol fyrddau ac asiantaethau sydd yn atebol i'r Cynulliad ers ei sefydlu yn 1999; a pha ymdrechion a wnaethpwyd i sicrhau bod y penodiadau hyn yn wleidyddol gytbwys? (WAQ8426)

**Prif Weinidog Cymru:** Ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu, gwnaed 208 o benodiadau i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Nid yw cydbwysedd gwleidyddol yn ffactor wrth ddethol ymgeiswyr i'w penodi i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Gwneir y penodiadau hyn yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus, sydd yn datgan na ddylai gweithgarwch, cysylltiadau na chydbwysedd gwleidyddol fod yn feini prawf wrth benodi, ar wahân i achosion ble bo gofynion statudol mewn grym, neu mewn achosion prin pan fo natur y corff cyhoeddus yn ei gwneud yn bwysig i sicrhau bod gan y pleidiau gwleidyddol unigol gynrychiolaeth arno.

### Blwch Ticio i Gymru

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cael blwch ticio i Gymru ar ffurflenni cyfrifiad 2001? (WAQ8562)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y mater hwn yn ystod y misoedd diwethaf.

### Lobïo'r Llywodraeth yn San Steffan yn Llwyddiannus

**Nick Bourne:** A all Prif Weinidog Cymru roi enghreifftiau o adegau pan fu'n lobïo'r Llywodraeth yn San Steffan yn llwyddiannus o ran cynnwys syniadau polisi'r Cynulliad mewn deddfwriaeth newydd? (WAQ8563)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf i a'm cydweithwyr yn rhan o drafodaethau parhaus gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion eraill y DU ynghylch cynnwys syniadau polisi'r Cynulliad mewn deddfwriaeth sylfaenol. Yn ystod sesiwn diwethaf y Senedd, pasiwyd 13 Mesur a oedd yn cynnwys cymalau ar ein cais ni. Mae sawl un o'r prif Ddeddfau wedi ystyried safbwynt y Cynulliad yn uniongyrchol o ganlyniad i gynrychiolaethau a wnaed. Maent yn cynnwys Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac maent yn profi y gall y Cynulliad ddylanwadu yn wirioneddol ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddwn yn parhau i sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn adlewyrchu anghenion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn y ffordd orau bosibl. Bydd yr un egwyddor yn berthnasol i'r pum Mesur sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael eu cyhoeddi, ar ôl iddynt gael eu cynnwys yn Araith y Frenhines ar 7 Rhagfyr, sydd yn cynnwys safbwynt y Cynulliad ar y ddeddfwriaeth, yn gyfan gwbl neu yn rhannol.

### Lleoli'r Cynulliad ym Mae Caerdydd

**Glyn Davies:** Yn eich ateb i'm cwestiwn ysgrifenedig WAQ8108, yr ydych yn dweud mai ym Mehefin 2000 y cafodd costau lleoli'r Cynulliad ym Mae Caerdydd eu harfarnu ddiwethaf, gan ddefnyddio canllawiau 'Llyfr Gwyrdd' y Trysorlys. Pryd fydd yr arfarniad economaidd nesaf? (WAQ8674)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae arfarniadau economaidd yn arf ar gyfer gwneud penderfyniadau hirdymor ynghylch eiddo ac, ran amlaf, nid ydynt yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Cynhaliwyd yr arfarniad ym Mehefin er mwyn cynorthwyo'r Cynulliad i ddewis cartref i'r Cynulliad ac er mwyn sefydlu penderfyniad terfynol, unwaith ac am byth, ynghylch a ddylid parhau gyda'r cynllun adeiladu presennol ai peidio. Gan

fod y Cynulliad yn awr wedi penderfynu parhau â'r cynllun, nid ydym yn bwriadu adolygu'r arfarniadau economaidd yn y dyfodol agos.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Gwerthu Nwy fel Tanwydd i Foduron

**Dafydd Wigley:** Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gynyddu nifer y gorsafoedd petrol yng Nghymru sydd hefyd yn gwerthu nwy fel tanwydd i foduron; ac a oes bwriad i ddarparu grantiau at y dibenion hyn? (WAQ8386)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Mae dosbarthu tanwydd a darparu mannau gwerthu petrol yn cael ei reoli gan amodau'r farchnad, ac mae penderfyniadau cwmnïau cyflenwi tanwydd yn cael eu gwneud ar sail fasnachol. Ar hyn o bryd, mae nifer o gwmnïau olew, fel BP, Shell (ar y cyd â Calor) a Conoco, yn ychwanegu at nifer y mannau gwerthu nwy petrolewm hylifedig (LPG) yn eu rhwydweithiau. Yn ôl y Gymdeithas Nwy Petrolewm Hylifedig (prif gorff masnach y diwydiant) dim ond ond 560 o fannau gwerthu LPG sydd yn y DU. Mae hynny'n cymharu â 13,716 o fannau gwerthu petrol yn y DU. Fodd bynnag, wrth i'r farchnad LPG dyfu, gall hynny arwain at gostau is i gyflenwyr, ac o bosib, brisiau is. Nid oes ffigurau ar wahân ar gael ar gyfer Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn ymgymryd â nifer o fesurau i annog pobl i ddefnyddio LPG fel tanwydd ffordd. Yng nghyllideb mis Mawrth 1999, torrwyd y dreth i 15 ceiniog y kg, sef gostyngiad o 29 y cant. Mae mesurau ychwanegol yn cynnwys rhaglen Powershift yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a ariennir gan Lywodraeth a diwydiant y DU, gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn cyfrannu tua £10 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cychwynnodd y rhaglen Powershift ym 1996. Ei nod yw datblygu marchnad gynaliadwy ar gyfer cerbydau tanwydd glân yn y DU, gan sicrhau gwelliannau ansawdd aer, sŵn a newid yn yr hinsawdd. Mae Powershift yn rhoi grantiau tuag at gost ychwanegol prynu cerbydau trydan a nwy newydd (LPG a nwy naturiol), sydd yn gwneud llai o niwed i'r aer na cherbydau petrol a diesel.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn helpu'r farchnad LPG trwy newidiadau i'r system o drethu cerbydau (VED), a ddaw i rym ar 1 Mawrth 2001. Bydd yr holl geir newydd a gofrestrir wedi hynny yn cael eu dosbarthu i bedwar band VED yn ôl cyfradd gollwng carbon deuocsid. Ym mhob band ceir gostyngiad o £10 i geir sy'n defnyddio technoleg a thanwydd glân, gan gynnwys LPG. O fis Ebrill 2002, bydd trefniadau tebyg yn dod i rym ar gyfer ceir cwmnïau.

### Anweithgarwch yng Nghymru

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y gwahaniaethau rhanbarthol yn y cyfraddau anweithgarwch yng Nghymru? (WAQ8547)

**Michael German:** Mae'r gyfradd anweithgarwch yng Nghymru yn sylweddol uwch na'r gyfradd ar gyfer y DU gyfan, ond mae'r broblem yn fwy difrifol yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag ydyw yn y dwyrain. Mae lefel anweithgarwch yn y Cymoedd yn hynod o uchel, o'i gymharu â'r DU, ymysg dynion rhwng 50 a 64 oed ac ymysg menywod oedran gweithio. Yn y Cymoedd, mae'r broblem yn waeth yn y Cymoedd canol a Chymoedd Gwent, sef yr ardal sydd wedi dioddef waethaf yn sgîl dirywiad y pyllau glo a diwydiannau cysylltiedig. Mae hyn yn adlewyrchu'n glir y diffyg cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur ar gyfer lefelau sgiliau isel, yn ogystal â ffactorau megis problemau iechyd a dieithrwch cymdeithasol. Yng ngorllewin Cymru, mae anweithgarwch yn hynod o uchel ymysg menywod rhwng 50 a 59 oed. Dengys ffigurau anweithgarwch ar lefel awdurdodau unedol batrwm anghyson dros amser (o ganlyniad i feintiau sampl bach ar hyn o bryd) ac, o ganlyniad, mae'n well canolbwyntio ar ardaloedd

daearyddol ehangach ar hyn o bryd. Yn y pen draw, bydd hwb yr arolwg gweithlu newydd yn golygu bod modd cael ffigurau eithaf dibynadwy ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau unedol.

### Anweithgarwch yn Rhondda Cynon Taf

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y cyfraddau anweithgarwch yn Rhondda Cynon Taf? (WAQ8551)

**Michael German:** Dengys ffigurau anweithgarwch ar lefel awdurdodau unedol batrwm anghyson dros amser (o ganlyniad i feintiau sampl bach ar hyn o bryd), ac felly gallant fod yn gamarweiniol. O ganlyniad, mae'n well canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol ehangach ar hyn o bryd. Yn y pen draw, bydd hwb yr arolwg gweithlu newydd yn golygu bod modd cael ffigurau eithaf dibynadwy ar gyfer rhan fwyaf yr awdurdodau unedol. Mae lefelau anweithgarwch yn y Cymoedd ar y cyfan yn arbennig o uchel, o'u cymharu â'r DU, ymysg dynion rhwng 50 a 64 oed ac ymysg menywod oedran gweithio. Yn y Cymoedd, mae'r broblem yn waeth yn y Cymoedd canol a Chymoedd Gwent, sef yr ardal sydd wedi dioddef waethaf yn sgîl dirywiad y pyllau glo a diwydiannau cysylltiedig. Mae hyn yn adlewyrchu'n glir y diffyg cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur ar gyfer lefelau sgiliau isel, yn ogystal â ffactorau megis problemau iechyd a dieithrwch cymdeithasol.

### Prosiectau Buddsoddi Mewnol a Dderbyniodd Gymorth Dethol Rhanbarthol

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German restru’r holl brosiectau buddsoddi mewnol a dderbyniodd gymorth dethol rhanbarthol o 1983-84 hyd heddiw, gan nodi:

- enw’r cwmni (os yn bosibl)
- swm y cymorth dethol rhanbarthol
- lleoliad
- y swyddi newydd a grewyd
- nifer y swyddi a ddiogelwyd? (WAQ8555)

**Michael German:** Dengys y tabl isod nifer cyfanredol a gwerth y cynigion o gymorth dethol rhanbarthol a dderbyniwyd gan gwmnïau sydd dan berchnogaeth dramor, ynghyd â rhagolygon buddsoddi a swyddi newydd neu swyddi a ddiogelwyd ar gyfer pob blwyddyn er 1983-84.

**Tabl: Cynigion Cymorth Dethol Rhanbarthol a Dderbyniwyd gan Gwmnïau sydd dan Berchnogaeth Dramor o 1983-84 tan 1999-2000**

| Cyfnod | Nifer y Cynigion | Gwerth y Cynnig (£m) | Rhagolygon Buddsoddi (£m) | Rhagolygon Swyddi Newydd | Rhagolygon Swyddi a Ddiogelid |
|---|---|---|---|---|---|
| 1983-84 | 44 | 16.7 | 104 | 1,779 | 3,175 |
| 1984-85 | 39 | 26.4 | 182 | 4,093 | 2,207 |
| 1985-86 | 30 | 22.6 | 190 | 2,098 | 1,844 |
| 1986-87 | 26 | 20.6 | 158 | 1,682 | 2,881 |
| 1987-88 | 23 | 14.1 | 148 | 2,096 | 1,505 |
| 1988-89 | 25 | 37.2 | 554 | 3,663 | 1,360 |
| 1989-90 | 19 | 33.7 | 260 | 2,313 | 2,283 |
| 1990-91 | 19 | 16.2 | 112 | 1,405 | 958 |
| 1991-92 | 30 | 41.4 | 338 | 4,036 | 2,065 |
| 1992-93 | 42 | 31.5 | 186 | 2,151 | 2,331 |
| 1993-94 | 50 | 54.1 | 297 | 3,809 | 2,397 |
| 1994-95 | 30 | 15.7 | 120 | 1,356 | 1,068 |
| 1995-96 | 34 | 37.2 | 440 | 3,171 | 2,554 |
| 1996-97 | 51 | 75.2 | 896 | 6,508 | 4,739 |
| 1997-98 | 34 | 94.0 | 1,701 | 8,984 | 1,465 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1998-99 | 26 | 23.9 | 314 | 2,987 | 293 |
| 1999-00 | 21 | 26.3 | 166 | 4,032 | 1,152 |

Mae'r wybodaeth a ddarperir gan gwmnïau unigol i gefnogi ceisiadau unigol am gymorth dethol rhanbarthol yn gyfrinachol ac, er mwyn cadw'r cyfrinachedd hwnnw, ni chaiff manylion am brosiectau unigol eu gwneud yn gyhoeddus fel arfer.

Fodd bynnag, cyhoeddir gwybodaeth am gwmnïau sydd yn derbyn cymorth dethol rhanbarthol, ynghyd â gwerth y cynnig, yn *Labour Market Trends* (a chyn hynny, *The Employment Gazette* ar gyfer prosiectau hŷn) ar ôl i randaliad cyntaf cynnig grant sydd werth £75,000 neu fwy gael ei dalu (defnyddiwyd trothwy is ar gyfer prosiectau hŷn).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1983-84 a 1999-2000, dyma sut y cyhoeddwyd dros 400 o brosiectau yr ymgymerwyd â hwy gan gwmnïau sydd dan berchnogaeth dramor. Ysgrifennaf atoch ar wahân gyda rhestr o'r prosiectau hynny, gan nodi enw'r cwmni, faint o gymorth ddethol rhanbarthol a gynigiwyd ac ym mha flwyddyn y cyhoeddwyd y prosiect, a byddaf yn rhoi copi o'r llythyr hwnnw yn y Llyfrgell.

### Treth Newid Hinsawdd

**Alun Cairns:** A yw Michael German wedi gwneud ymchwil i gloriannu'r effeithiau y bydd y dreth newid hinsawdd yn eu cael ar swyddi yng Nghymru? (WAQ8560)

**Michael German:** Ni fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i ni gasglu data cwbl gywir ynghylch effeithiau'r dreth newid hinsawdd ar swyddi oherwydd, yn y tymor canolig, gobeithir y bydd y gostyngiadau mewn yswiriant gwladol a'r lwfansau effeithlonrwydd egni y mae'r dreth yn eu hariannu yn dileu effaith y dreth ar fusnesau yn gyffredinol. Y llynedd, cynhaliwyd arolwg anffurfiol gan swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ar y diwydiannau sydd yn fwyaf tebygol o deimlo effaith y dreth, a chyfrannodd hyn at y trafodaethau a gafwyd rhwng Prif Weinidog Cymru a Changhellor y Trysorlys, sydd yn gyfrifol am bolisi treth. Cyfrannodd y trafodaethau hynny at ddiwygio'r dreth strwythur, a gyhoeddwyd yn natganiad hydref 1999. Yr oedd y diwygiadau yn ymestyn hawl cwmnïau oedd dan gytundebau a negodwyd i gael gostyngiad o 80 y cant ar y dreth, ac mae'r byd diwydiant yng Nghymru wedi elwa'n sylweddol yn sgîl hynny. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud ymdrech sylweddol i sicrhau bod ein diwydiannau'n manteisio i'r eithaf ar y gostyngiadau sydd ar gael.

### Taliadau o'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd

**Alun Cairns:** Am ba hyd y bydd angen i bartneriaethau Amcan 1 aros ar ôl iddynt wario ar gynlluniau Amcan 1 cyn cael yr arian o'r gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd? (WAQ8561)

**Michael German:** Mae ffurflenni hawlio yn awr yn cael eu dosbarthu i noddwyr sydd â phrosiectau llwyddiannus, er mwyn eu galluogi i hawlio gwariant hyd at 31 Rhagfyr 2000. Rhaid dychwelyd y ffurflenni erbyn 19 Ionawr 2001 a disgwylir y bydd y rhain wedi cael eu talu erbyn diwedd Chwefror.

Bydd rhaglenni presennol cronfa strwythurol cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd yn cael eu talu mewn ôl-daliadau bob chwarter. Bydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 yn ystyried pa drefniadau talu y dylid eu mabwysiadu ar gyfer y rhaglen yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr.

### Trethi Busnes Lleol

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatganiad am y modd y bydd ardollau lleol ar drethi busnes yn effeithio ar fyd busnes yng Nghymru? (WAQ8570)

**Michael German:** Mae'r gyfradd leol ategol wedi'i chynllunio i annog a galluogi cynghorau a'u cymunedau busnes i gydweithio er mwyn cytuno ar flaenoriaethau gwariant. Byddai hyn yn darparu

cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau lleol y cytunwyd arnynt gan y cynghorau a'r busnes. Bydd yn eu cynorthwyo hwy i gydweithio mewn partneriaeth er budd yr holl gymuned leol.

### Ardollau Lleol ar Drethi Busnes

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatgan ei bolisi am y cynigion ynghylch ardollau lleol ar drethi busnes? (WAQ8571)

**Michael German:** Cafodd argymhellion Cabinet blaenorol y Cynulliad ar gyfer newid system ariannol llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys argymhellion ar gyfer cyfradd leol ategol, eu cyhoeddi ar 22 Medi. Yr wyf wedi trefnu bod copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu cadw yn y Llyfrgell.

### Cymorth Technegol ar gyfer y Sector Preifat

**Alun Cairns:** Faint o'r gyllideb cymorth technegol sydd wedi'i gwario gan y sector preifat? (WAQ8572)

**Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatganiad ynghylch y defnydd a wnaed gan y sector preifat o gymorth technegol ar gyfer cyflwyno ceisiadau Amcan 1? (WAQ8573)

**Michael German:** Cytunodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (ym mis Gorffennaf) y dylid darparu cymorth technegol i'r prif gyrff yn 2000 er mwyn eu galluogi hwy i ddarparu gwasanaeth i'r partneriaethau sydd yn llunio cynlluniau gweithredu ac yn asesu prosiectau. Mae'r gwasanaeth hwnnw'n cynnwys cynnig cyngor i ddarpar ymgeiswyr (gan gynnwys y sector preifat). Dyma'r unig gymorth technegol y cytunwyd arno hyd yma. Fodd bynnag, bydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn ystyried strategaeth ar gyfer cymorth technegol yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr. Bydd hyn yn cynnwys manylion ynghylch sut y gall y sector preifat fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael. Seiliwyd hyn ar drafodaethau a gafwyd gyda chyrff cynrychioladol o'r sector preifat (y Siambrau yn bennaf) ynghylch beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnig gefnogaeth.

### Prosiectau Amcan 1 Hyd yn Hyn

**Alun Cairns:** Faint o arian Ewropeaidd sydd a) wedi'i neilltuo, a b) wedi'i dynnu i lawr ar gyfer prosiectau Amcan 1 hyd yn hyn? (Rhestrwch brosiectau a dyddiadau yn unigol). (WAQ8574)

**Michael German:** a) Mae'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Amcan 1 wedi cael eu neilltuo fel a ganlyn:

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd**

| Blaenoriaeth | Mesur | Enw'r Mudiad | Enw'r Prosiect | Dyddiad y'i cymeradwywyd | Arian o'r Gronfa |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru | Rhwydwaith Dysgu Cymru | 31/10/00 | £2,636,380 |
| 1 | 5 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Canolfan Fenter Efrog Newydd (Penmaen-mawr) | 27/10/00 | £145,467 |
| 1 | 5 | Cyngor Sir Ddinbych | Datblygiad Strategol Safle Diwydiannol Sir Ddinbych | 27/10/00 | £699,040 |
| 5 | 6 | Cyngor Sir Ceredigion | Cefnogaeth ar gyfer Datblygu Economaidd Lleol yng Ngheredigion | 27/10/00 | £129,800 |
| 1 | 5 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Tredomen- Pentref Trefol Cynaliadwy Penallta – Cyfnod 1 | 27/10/00 | £760,000 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 3 | Cyngor Sir Benfro | Adeiladau ac Is-adeiledd Busnes, Pont Cleddau | 25/10/00 | £1,034,677 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cefnogaeth Ariannol Leol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, Blaenau Gwent | 3/11/00 | £247,500 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Cynllun Grant ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, Rhondda Cynon Taf | 3/11/00 | £1,418,750 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | Cynllun Grant Integredig sydd yn Cynnig Cefnogaeth Busnes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | 3/11/00 | £467,061 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Rhwydwaith Cefnogi Busnes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 3/11/00 | £315,500 |
| 1 | 1 | Cyngor Sir Ynys Môn | MONFENTER, Cyngor Sir Ynys Môn | 2/11/00 | £216,000 |
| 1 | 1 | Cyngor Gwynedd | Pecyn Datblygu Busnes Gwynedd | 6/12/00 | £731,500 |
| 2 | 3 | Awdurdod Datblygu Cymru | Datblygu clystyrau opto-electroneg – cefnogwr sector | 23/11/00 | £210,000 |
| 1 | 5 | Awdurdod Datblygu Cymru | Rhaglen Ddatblygu Fentrus ar gyfer gogledd-orllewin Cymru – Cyfnod 1 | 4/12/00 | £2,864,000 |

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**

| **Blaenoriaeth** | **Mesur** | **Enw'r Mudiad** | **Enw'r Prosiect** | **Dyddiad y'i cymeradwywyd** | **Arian o'r Gronfa** |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 2 | Cymdeithas Gwasanaethau Gyrfaoedd Cymru | Porth i'r Ifanc | 17/10/00 | £1,371,636 |
| 1 | 4 | CELTEC | Sgiliau Busnes | 17/10/00 | £369,412 |
| 4 | 3 | Dinas a Sir Abertawe | Gwasanaeth Sgiliau Abertawe | 17/10/00 | £1,418,239 |
| 4 | 1 | Cyfle | Cynllun Ymgeiswyr Newydd Cyfle 2000 | 17/10/00 | £131,725 |
| 4 | 1 | Gwasanaeth Cyflogau | Canolfan Rhaglenni Rhyngweithiol | 17/10/00 | £3,000,000 |
| 1 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru | Cronfa Ymelwa ar Wybodaeth | 17/10/00 | £3,689,963 |
| 1 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Sgiliau Busnes a Rheoli | 17/10/00 | £2,467,617 |
| 2 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Sgiliau lefel uwch Gwydd, Tech,Peirianneg, TGCh | 17/10/00 | £2,685,413 |
| 4 | 1 | Cyngor Sir Ynys Môn | Prentisiaeth ar y cyd ym Môn | 17/10/00 | £9,082 |
| 4 | 2 | Menter Fachwen | Prosiect Anableddau Gwynedd | 17/10/00 | £722,009 |
| 4 | 5 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Ffyrdd i Gyflogaeth | 17/10/00 | £429,622 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 1 | Parth Cyflogaeth Gogledd-Orllewin Cymru | Cyfryngwyr Cyflogaeth Gogledd Cymru | 17/10/00 | £6,319,771 |
| 4 | 3 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Rhwydwaith Dysgu Newydd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot | 17/10/00 | £3,096,536 |
| 1 | 4 | Prifysgol Cymru Abertawe | Cymru Prosper Wales | 17/10/00 | £1,420,393 |
| 4 | 2 | Cymdeithas Addysg Gweithwyr Gogledd Cymru | Gwaith Maes yn y Gymuned | 17/10/00 | £620,254 |
| 4 | 2 | Cyngor Hyfforddi a Menter Gorllewin Cymru Cyf | Arweiniad a Hyfforddiant Cychwynnol | 17/10/00 | £124,910 |

b) Fel arfer, ni chaiff cronfeydd strwythurol Ewrop eu tynnu i lawr o'r Comisiwn Ewropeaidd hyd nes y bydd yr arian wedi cael ei wario, fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi sirchau £47.6 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd ar gyfer y Cynulliad. Ar hyn o bryd, yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd yn gyfrifol am daliadau o Gronfeydd Strwythurol Ewrop.

**Gwella Twristiaeth yn Sir Fynwy**

**David Davies:** A wnaiff Michael German amlinellu cynlluniau i wella twristiaeth yn ardal Pandy yn Sir Fynwy? (WAQ8603)

**Michael German:** Yn Rhagfyr 1996, fe lansiodd Fforwm Datblygu Economaidd Sir Fynwy ei strategaeth datblygu economaidd pum mlynedd ar gyfer Sir Fynwy am. Dyma brif amcanion y strategaeth (1998-2002):

- hyrwyddo Sir Fynwy, o fewn y sir a thu hwnt, fel lleoliad o ansawdd i bobl fyw a gweithio ynddo, yn ogystal â lle i ymweld ag ef;
- annog a hyrwyddo twf twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel fel gweithgaredd drwy'r flwyddyn, yn y sir drwyddi draw.

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn dal i gefnogi cynlluniau lleol, drwy gydweithio â grŵp cynghori Sir Fynwy a thrwy rannu gwybodaeth yng nghylchlythyr Sir Fynwy – *Tourism Matters*.

**Ceisiadau Amcan 1 (Cyfrinachedd Masnachol)**

**Alun Cairns:** Pa drefniadau sydd ar waith i osgoi gwrthdaro posibl rhwng buddiannau a diogelu cyfrinachedd masnachol y rhai o'r sector preifat sydd yn cyflwyno ceisiadau Amcan 1? (WAQ8628)

**Michael German:** Mae rheolau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn rhwystro pobl sydd â diddordeb arbennig mewn cais rhag cymryd rhan yn y trafodaethau sydd yn ymwneud â'r cais hwnnw. Mae cod ymarfer y Cynulliad ar ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth yn ymdrin â chyfrinachedd masnachol.

**Pwyllgor Monitro Amcan 1**

**Dafydd Wigley:** Faint o bobl sydd ar Bwyllgor Monitro Amcan 1, a faint o'r rhain sy'n dod o Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych? (WAQ8629)

**Michael German:** Mae 25 aelod a 18 eilydd ar Bwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1. Mae'r rhain wedi eu dethol o wahanol sectorau'r bartneriaeth ac yn cynrychioli buddiannau holl ardal gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae tri o aelodau'r Pwyllgor Monitro, a dau o'r eilyddion, yn dod o ardaloedd y cynghorau a grybwyllwyd gennych.

## Denu Swyddi i Sir Benfro

**Nick Bourne:** Beth sydd yn cael ei wneud i ddenu mwy o swyddi i Aberdaugleddau? (WAQ8658)

**Nick Bourne:** Beth sydd yn cael ei wneud i ddenu mwy o swyddi i Abergwaun? (WAQ8659)

**Nick Bourne:** Beth sydd yn cael ei wneud i ddenu mwy o swyddi i Ddoc Penfro? (WAQ8660)

**Michael German:** Atebaf y tri chwestiwn hyn gyda'i gilydd.

Cafwyd sawl llwyddiant yn Sir Benfro dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys prosiect Elf yn Aberdaugleddau a ddiogelodd 294 o swyddi, prosiect canolfan alwadau Manpower yn Noc Penfro a phrosiect Sun Ya Shoes yn Aberdaugleddau. Mae pob un o'r prosiectau hyn wedi derbyn cymorth dethol rhanbarthol. Yn fwy diweddar, mae'r Cynulliad Cenedlaethol ac Awdurdod Datblygu Cymru wedi cefnogi Friday Ads Limited, prosiect canolfan alwadau a greodd 50 o swyddi yn Aberdaugleddau.

Er hynny, rhaid gwneud mwy, a dylai rhoi statws ardal a gynorthwyir Amcan 1 a Haen 1 i orllewin Cymru wneud llawer i annog a chynorthwyo buddsoddiad a thwf yn y rhan bwysig hon o Gymru. Mae 'Rhoi Cymru yn Gyntaf' yn cynnwys sawl ymrwymiad i ymelwa ar yr holl amrywiaeth o gyfleoedd a chymhelliannau y mae'r rhain yn eu cynnig. Yr ydym yn bwriadu cyflwyno mesurau i fonitro sut mae dosbarthiad cymorth dethol rhanbarthol a chynlluniau grant eraill yn adlewyrchu amrywiaeth rhanbarthol ac anghenion economaidd holl ardaloedd Cymru.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i annog prosiectau buddsoddi mewnol o ansawdd, a rhai sydd â gwerth uchel, a bydd yn annog datblygiadau masnachol dramor. I'r perwyl hwn, byddwn yn cynyddu'r nawdd sydd ar gael i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, er mwyn iddynt allu ymestyn eu gweithgareddau marchnata ac i annog ton newydd o fuddsoddiad mewnol uniongyrchol i Gymru o dramor. Bydd Awdurdod Datblygu Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Benfro, yn parhau gyda'i strategaeth farchnata i hyrwyddo Sir Benfro gyfan i ddarpar fuddsoddwyr mewnol.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi sefydlu swyddfa gorllewin Cymru yn Abertawe i weinyddu a hyrwyddo cynllun grant cymorth dethol rhanbarthol ac i ddarparu cyngor ac arweiniad ar holl agweddau masnach dramor. Mae'r swyddfa'n cynnig ffocws gwir angenrheidiol ar gyfer y gefnogaeth a gaiff busnesau gan y Cynulliad ac mae'n gweithio'n agos gydag Awdurdod Datblygu Cymru a mudiadau partner eraill yn Nhîm Cymru er mwyn sicrhau gwasanaeth cryno, effeithlon ac un sydd yn ymatebol i gwmnïau lleol.

Ar lefel fwy cyffredinol, yr ydym wedi ymrwymo i wneud popeth a allwn i annog hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth gan fod dyfodol llwyddiannus i economi Cymru'n dibynnu ar ddiwylliant menter cryf. Mae gan y cynllun gweithredu entrepeneuriaeth rôl bwysig iawn i'w chwarae wrth fanteisio i'r eithaf ar y defnydd a wneir o arian Amcan 1 er mwyn cynorthwyo i ddatblygu busnesau newydd, cryfhau diwylliant entrepeneuriaeth a sicrhau twf cyson yn y tymor hir.

### Prosiectau Amcan 1 sydd eisoes ar Waith

**Nick Bourne:** A all Michael German roi adroddiad am ba rai o brosiectau Amcan 1 sydd eisoes ar waith? (WAQ8661)

**Michael German:** Hyd yn hyn, mae 30 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo a bydd nifer o'r prosiectau hyn wedi dechrau cyn iddynt gael eu cymeradwyo dan y rheolau ar gyfer adolygon costau.

### Effaith Amcan 1

**Nick Bourne:** Pa asesiad, ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf, a wnaethpwyd o effaith Amcan 1, ac a wnaiff Michael German gyhoeddi manylion yr asesiad hwn? (WAQ8662)

**Michael German:** Nid oes rhaid cyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf y ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 1 tan 30 Mehefin 2002. Cyflwynir adroddiadau cynnydd rheolaidd i Bwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, a chyhoeddir pob un ohonynt. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi edrych ar sut y gweithredwyd Amcan 1 yn ei blwyddyn gyntaf a bydd yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 15 Rhagfyr. Caiff yr adroddiad hwnnw ei gyhoeddi gyda phapurau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

### Strategaeth ar gyfer Rhoi Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar Waith

**Nick Bourne:** A yw Michael German yn sicr bod y strategaeth ar gyfer rhoi rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar waith wedi ei chyflwyno yn gyflym? (WAQ8663)

**Michael German:** Yr ydym wedi gwneud cynnydd da ym mlwyddyn gyntaf Amcan 1 ac Amcan 3. Cafodd tri deg o brosiectau Amcan 1 a 58 o brosiectau Amcan 3 eu cymeradwyo ers Hydref, pan gytunwyd ar niferoedd perthnasol y rhaglenni. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen y galwais i ynghyd wedi edrych ar sut y rhoddwyd Amcan 1 ar waith a sut y gellir gwella'r broses. Mae'r gwaith ymhell o fod ar ben ond mae'r cynnydd hyd yma yn foddhaol.

## Diogelu Busnesau Gwledig

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymerwyd i ddiogelu swyddfeydd post, siopau a busnesau eraill sydd yn darparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau gwledig? (WAQ8664)

**Michael German:** Yr ydym ar hyn o bryd yn ymgynghori â chynghorau ynghylch sut y gallwn gydweithio er mwyn cynnig mwy o ostyngiadau dewisol mewn ardrethi busnesau bach gwledig. Hefyd, fel rhan o broses ymgynghori ehangach Cabinet y Cynulliad ar gyllid llywodraeth leol, yr ydym wedi dweud y byddwn yn ystyried ymestyn y cynllun gostwng ardrethi gwledig i fathau eraill o fusnesau gwledig mewn pentrefi, megis siopau bwyd, tafarndai a gorsafoedd petrol.

Yn ogystal â hyn, yr ydym yn ymgynghori ynghylch cynllun gostwng ardrethi er mwyn cynorthwyo ffermwyr i arallgyfeirio i amrywiaeth eang o weithgareddau nad oes a wnelont ag amaethyddiaeth.

### Pont Cleddau

**Alun Cairns:** Faint o ddyledion sydd gan Bont Cleddau ar hyn o bryd? (WAQ8702)

**Alun Cairns:** Beth yw effaith y doll a godir i groesi Pont Cleddau ar economi Sir Benfro? (WAQ8703)

**Michael German:** Cyfrifoldeb Cyngor Sir Penfro, sy'n berchen ar y bont ac yn gweithredu'r bont, yw pob mater sy'n ymwneud â phont Cleddau. Awgrymaf eich bod yn cysylltu â phrif weithredwr y cyngor, a fydd yn gallu eich cynorthwyo â'ch ymholiadau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Profion GNVQ drwy gyfrwng y Gymraeg

**Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gadarnhau bod trefniadau yn barod ar gyfer profion cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol cyffredinol (GNVQs) drwy gyfrwng y Gymraeg eleni? (WAQ8558)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae tri chorff dyfarnu yn cymryd rhan yn y broses o ddarparu a dyfarnu GNVQs, sef y Gynghrair Asesu a Chymwysterau (AQA), Arholiadau Rhydychen, Caergrawnt ac RSA (OCR) ac Edexcel. Mae AQA ac OCR wedi rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn darparu profion drwy gyfrwng y Gymraeg ym mis Ionawr 2001. Mae Edexcel yn

asesu'r sefyllfa ar gyfer mis Ionawr yng ngoleuni'r galw. Mae'r tri chorff yn bwriadu darparu profion drwy gyfrwng y Gymraeg ym mis Mehefin 2001.

### Profion GNVQ drwy gyfrwng y Gymraeg (Trafodaethau ag ACCAC)

**Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng Jane Davidson, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag anawsterau yn ymwneud â phrofion cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol cyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ8559)

**Jane Davidson:** Dim, ond mae fy swyddogion mewn cysylltiad agos ag ACCAC ynghylch y mater.

### Pwyllgorau Addysg Awdurdodau Lleol (Rôl Rhieni-Lywodraethwyr)

**Alun Cairns:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar rôl rheini-lywodraethwyr ar bwyllgorau addysg awdurdodau lleol? (WAQ8575)

**Jane Davidson:** Etholir cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr i gynrychioli rhieni'r holl blant sydd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol. Mae eu rôl yn ymwneud â siarad ar ran rhieni a phlant ar faterion addysg yng nghyfarfodydd yr awdurdod lleol, pleidleisio ar benderfyniadau allweddol sydd yn effeithio ar ysgolion, cadw mewn cysylltiad â safbwyntiau'r rhieni a gweithredu fel swyddog cyswllt pan fo'r awdurdod lleol yn canfasio barn pobl ar wahanol gynigion. Maent yn galluogi rhieni i gyfrannu'n uniongyrchol at bolisïau eu hawdurdod lleol ar ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion.

### Pwyllgorau Addysg Awdurdodau Lleol (Canllawiau i Rieni-Lywodraethwyr)

**Alun Cairns:** Pa ganllawiau sydd ar gyfer rôl rhieni-lywodraethwyr ar bwyllgorau addysg awdurdodau lleol? (WAQ8576)

**Jane Davidson:** Amlinellir y gofynion presennol yn Rheoliadau (Cynrychiolwyr Rhieni-Lywodraethwyr) (Cymru) Addysg 1999. Rhoddir canllawiau ar hyn yng nghylchlythyron 1/99 a 15/99 y Cynulliad.

### Isadeiledd Cyfathrebu SuperJANET

**Alun Cairns:** Pa golegau a phrifysgolion a fydd yn cael eu cefnogi gan yr isadeiledd cyfathrebu SuperJANET newydd? (WAQ8577)

**Jane Davidson:** Mae'r holl sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru yn rhan o rwydwaith SuperJANET, yn ogystal â Chyngor Cyllido Addysg Uwch a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru.

### Cynllun Cyfathrebu SuperJANET (Datganiad)

**Alun Cairns:** A wnaiff Jane Davidson ddatganiad ar gynllun cyfathrebu SuperJANET i gynorthwyo prifysgolion yng Nghymru? (WAQ8578)

**Jane Davidson:** Mae'r term 'JANET' yn cyfeirio at y cyd-rwydwaith academaidd, sef rhwydwaith cyfrifiadurol cenedlaethol o'r radd flaenaf sydd yn cysylltu pob sefydliad addysg uwch, y rhan fwyaf o safleoedd cynghorau ymchwil a llawer o fudiadau eraill sydd yn cydweithio â chymuned academaidd ac ymchwil y DU. Mae JANET wedi bod ar waith ers dechrau'r 1980au a dyma'r brif ffordd o gyfnewid data a gwybodaeth rhwng sefydliadau cysylltiedig. Cyd-Bwyllgor Systemau Gwybodaeth y Swyddfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg sydd yn ariannu JANET.

SuperJANET yw'r enw a ddefnyddir am y rhan gyflym iawn o JANET, a elwir yn rhwydwaith band llydan. Datblygwyd y rhwydwaith blaenllaw hwn yn niwedd y 1980au gan y gymuned addysg uwch, ynghyd â nifer o gwmnïau telegyfathrebu eraill. Ei gryfder mawr yw bod modd defnyddio'r rhan hon o'r

rhwydwaith i gefnogi ffyrdd hollol newydd o storio, prosesu a dosbarthu gwybodaeth. Mae cyflymder a photensial uwch SuperJANET yn galluogi pobl i ddefnyddio maint enfawr o ddata drwy'r rhwydwaith. Mae gan dros 120 o sefydliadau addysg uwch yn y DU y rhwydwaith SuperJANET band llydan.

**Amddiffyn Sefydliadau Hyfforddi y Sector Preifat**

**Alun Cairns:** Sut y mae Jane Davidson yn bwriadu amddiffyn buddiannau sefydliadau hyfforddi y sector preifat pan fydd y cynghorau hyfforddi a menter wedi cael eu dirwyn i ben? (WAQ8579)

**Jane Davidson:** Bydd sefydliadau hyfforddi y sector preifat yn parhau i ddarparu hyfforddiant yn y gwaith dan gytundeb i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Byddant yn chwarae rôl bwysig yn cynorthwyo i gynllunio datblygiadau yn y ffordd y cyflwynir gwasanaethau lleol, ar y cyd â darparwyr gwasanaethau eraill, drwy gyfrwng eu cynrychiolwyr ar gonsortia cymunedol addysg a hyfforddiant. Bydd y cynlluniau cyflwyno gwasanaethau ar y cyd hyn yn cynorthwyo i oleuo penderfyniadau'r cyngor ar gomisiynu darparwyr gwasanaethau addas.

Bydd y cyngor newydd eisiau annog darparwyr newydd a all gynnig gwasanaethau o safon. Bydd yn parhau â'i ddiddordeb mewn sicrhau marchnad iach sydd yn cynnig dewis dilys a gwerth da. Bydd y cyngor yn edrych am ddarparwyr a all ymateb i'r cyfleoedd a'r her sydd yn wynebu Cymru a rhai a all ddangos y gallu i fod yn arloesol a datblygu ochr yn ochr â her ein diwygiadau. Dylai darparwyr y sector preifat sydd yn teimlo bod ganddynt wasanaethau o safon wneud hynny'n amlwg i'w partneriaid cynllunio drwy gyfrwng eu cynrychiolwyr ar gonsortia perthnasol. Yna gellir ystyried eu cyfraniad wrth ddatblygu cynlluniau cyflwyno gwasanaethau lleol.

**Arian i Brifysgolion Cymru**

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae Jane Davidson yn eu cymryd i sicrhau bod prifysgolion Cymru yn derbyn arian sydd yn gyfartal â phrifysgolion yn Lloegr? (WAQ8580)

**Jane Davidson:** Yr wyf i, wrth gwrs, yn awyddus i sicrhau na chaiff prifysgolion Cymru eu rhoi dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr neu mewn rhannau eraill o'r DU.

Fel a nodir yn ein cytundeb partneriaeth, yr ydym wedi ymrwymo i sefydlu dyfodol cryf i sector addysg uwch Cymru drwy lunio strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwaith datblygu ac ymestyn a gaiff ei ariannu'n ddigonol.

Bydd y cyllid ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru £16 miliwn yn uwch erbyn 2003-04, ar ben y setliad ardderchog a dderbyniodd y sector yn 2000-01 yn sgîl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Mae'r Cynulliad hefyd yn rhyddhau £10 miliwn pellach bob blwyddyn dan y gronfa ymelwa ar wybodaeth er mwyn hybu galluoedd creu arian y sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Defnyddir yr arian er mwyn cyflymu'r broses o ymelwa ar waith ymchwil a datblygu a gwybodaeth ac arbenigedd arall o fewn ein sefydliadau. Bydd yn cynorthwyo'r sefydliadau i ddatblygu i'r eithaf eu cyfraniad at greu cyfoeth a swyddi a datblygiadau economaidd yng Nghymru.

Bydd canlyniad adolygiad y Pwyllgor dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar bolisi addysg uwch yng Nghymru yn eithriadol o bwysig o ran setliadau 2002-03 a thu hwnt i hynny. Yr wyf i hefyd wedi gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am gyngor pellach ynghylch anghenion cyllid gwir hanfodol y sector addysg uwch yng Nghymru.

Bydd y Cynulliad yn edrych yn ofalus ar y cyllid ar gyfer 2002-03, a thu hwnt i hynny, yng ngoleuni'r adolygiad o bolisi addysg uwch a'r cyngor a geir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**Arian i Brifysgolion Cymru (Diffyg)**

**Nick Bourne:** A oes unrhyw brifysgolion yng Nghymru yn wynebu diffyg o ran eu hariannu o’i gymharu â phrifysgolion yn Lloegr? (WAQ8581)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb y Cynulliad fydd penderfynu beth yw ei flaenoriaethau ariannu ar gyfer Cymru, ac ni fydd y rhain o reidrwydd yr un fath â'r rhai ar gyfer Lloegr neu rannau eraill o'r DU.

Fodd bynnag, fel a ddywedais yn fy ateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig, WAQ8580, yr wyf i, wrth gwrs, yn awyddus i sicrhau na chaiff prifysgolion Cymru eu rhoi dan anfantais, o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr neu rannau eraill o'r DU.

Yr ydym wedi ymrwymo i sefydlu dyfodol cryf i'r sector addysg uwch yng Nghymru drwy lunio strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwaith datblygu ac ymestyn a gaiff ei ariannu'n ddigonol.

Bydd y Cynulliad yn edrych yn ofalus ar y cyllid ar gyfer 2002-03, a thu hwnt i hynny, yng ngoleuni'r adolygiad o bolisi addysg uwch a'r cyngor a geir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

### Y Coleg Digidol

**Alun Cairns:** Faint o arian y mae Jane Davidson yn rhagweld y bydd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn ei ddosbarthu i’r Coleg Digidol? (WAQ8596)

**Jane Davidson:** Mater i'r cyngor fydd penderfynu ar ei adnoddau dewisol newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan roi ystyriaeth hefyd i lefel adnoddau o'r fath, ymrwymiadau a etifeddwyd, blaenoriaethau'r cyngor, asesiadau anghenion a safbwynt mudiadau partneriaethol ledled Cymru.

### Hyfforddiant Sector Preifat

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Davidson i hwyluso hyfforddiant sector preifat yng Nghyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant? (WAQ8597)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig WAQ8579, ac nid oes gennyf ddim byd i'w ychwanegu ato.

### Cynrychiolaeth o’r Sector Busnes ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Davidson i annog cynrychiolaeth gref o’r sector busnes ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant? (WAQ8598)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at fy atebion i'ch cwestiynau ar gyfraniad busnes i'r cyngor newydd (WAQ8599) ac aelodaeth busnes ar y cyngor newydd (WAQ8600). Yr wyf yn manteisio ar bob cyfle i bwysleisio pwysigrwydd ein trefniadau newydd ar gyfer addysg ôl-16, i fuddiannau busnesau, ac i annog busnesau i gyfranogi at y broses o ddatblygu diwylliant dysgu Cymreig sydd yn ymateb i anghenion cyflogwyr.

### Diogelu Cyfraniad Busnesau i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

**Alun Cairns:** Pa fesurau y gall Jane Davidson eu cynnig i ddiogelu cyfraniad busnesau i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant? (WAQ8599)

**Jane Davidson:** Yr oedd cynnig y Cynulliad ar 1 Chwefror 2000 yn cydnabod cyfraniad hanfodol cyflogwyr i foderneiddio ein strwythurau dysgu ôl-16. Cafodd yr argymhellion hyn eu hadlewyrchu yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000, sydd yn gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor newydd i annog cyflogwyr i gyfranogi at addysg ôl-16 ac mae'n nodi y dylid ystyried anghenion dysgu busnesau.

Mae cyfraniad busnesau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol yn hanfodol i lwyddiant addysg ôl-16 yng Nghymru, ac mae'r trefniadau sydd yn awr ar y gweill ar gyfer sefydlu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn llwyr gydnabod pwysigrwydd safbwynt busnesau.

### Aelodau o Fyd Busnes ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant

**Alun Cairns:** Beth yw'r gyfran y mae Jane Davidson am ei chyflwyno fel isafswm o aelodau byrddau Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a ddaw o fyd busnes, ar lefel Cymru ac ar lefel ranbarthol? (WAQ8600)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad wedi cydnabod y bydd gan fyd busnes rôl bwysig i'w chwarae yn y trefniadau newydd ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru ac wedi annog cynrychiolwyr busnesau i sicrhau bod ymgeiswyr addas o safon uchel yn gwirfoddoli i'w hystyried fel aelodau o'r cyngor.

Nid yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn nodi lefelau cynrychiolaeth ar gyfer diddordebau penodol ar y cyngor newydd. Mae'r Cynulliad wedi penderfynu y gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, gan ystyried yr amrywiaeth o brofiad sydd gan yr ymgeiswyr i'w gynnig, ac yn unol ag egwyddorion Nolan. Mae'r broses o ddethol aelodau'r cyngor yn parhau ar y sail hon.

Nododd Tom Middlehurst, wrth ateb eich cwestiwn ysgrifenedig ar 21 Medi (WAQ6780), mai'r cyngor fydd yn gwneud y penodiadau i bwyllgorau rhanbarthol y cyngor newydd, a byddent yn cael eu gwneud ar ôl i aelodau'r cyngor gael eu penodi. Bydd y Cynulliad yn disgwyl i benodiadau a wneir gan y cyngor i'w bwyllgorau hefyd gydymffurfio ag ymarfer gorau ac egwyddorion Nolan.

### Bagloriaeth Gymreig

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Davidson gyhoeddi manylion y cynllun peilot sydd ar y gweill ar gyfer Bagloriaeth Gymreig, a pha ysgolion sydd yn mynd i gymryd rhan yn y cynllun hwn? (WAQ8647)

**Jane Davidson:** Rhoddais fanylion pellach i'r Pwyllgor dros Addysg a Dysgu Gydol Oes heddiw ynghylch y cynllun peilot ar gyfer Bagloriaeth Gymreig, gan gynnwys y cylch gorchwyl drafft ar gyfer grŵp llywio a'r amserlenni arfaethedig. Ni enwir yr ysgolion na'r colegau peilot am beth amser.

### Canran o'r Gyllideb Addysg sydd yn Mynd yn Uniongyrchol i Ysgolion

**Nick Bourne:** Pa ganran o'r gyllideb addysg sydd yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion? (WAQ8648)

**Jane Davidson:** Dim. Dyrennir arian i ysgolion drwy'r awdurdodau lleol.

### Polisi Ysgolion Gwledig

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i ddatblygu polisi ysgolion gwledig, a phryd caiff y manylion eu cyhoeddi? (WAQ8650)

**Jane Davidson:** Mae'r adolygiad a gynhelir ar hyn o bryd gan y Pwyllgor dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar faint o lefydd sydd mewn ysgolion yn cyffwrdd â materion sydd yn ymwneud ag ysgolion gwledig. Byddaf yn ystyried polisi'r dyfodol yng ngoleuni eu casgliadau ac yr wyf yn gobeithio y gallaf gyflwyno adroddiad arno mewn Cyfarfod Llawn cyn gwyliau'r haf.

### Dewis o ran Dysgu Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4

**Nick Bourne:** A wnaiff llywodraeth Jane Davidson hyrwyddo dewis o ran dysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4? (WAQ8652)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad wedi dangos ymrwymiad clir i roi cyfle i bob disgybl yng Nghymru ddysgu Cymraeg drwy gydol ei g/yrfa yn yr ysgol. Yn unol â'r drefn yn y gorffennol, yr ydym wedi dod i'r casgliad, er mwyn i'r ymrwymiad hwn fod yn ystyrlon, y dylid cael dilyniant a chynnydd drwy gydol cyfnod addysg statudol, gan gynnwys cyfnod allweddol 4.

Mae adroddiadau Estyn yn dangos llwyddiant calonogol ac yn cadarnhau bod safonau'n gwella.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ailagor Ysbyty Clydach

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad am y gwariant cyfalaf untro y mae ei angen er mwyn ailagor Ysbyty Clydach? (WAQ8431)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ailagor yr ysbyty yw'r dewis sydd orau gan Awdurdod Iechyd Morgannwg yn ei ymgynghoriad ar ddefnyddio Ysbyty Clydach yn y dyfodol. £1 miliwn yw'r amcangyfrif presennol o'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i ddefnyddio'r ysbyty unwaith eto.

Er mwyn gallu ystyried y cynnig hwn ar gyfer cyllid canolog, bydd rhaid cyflwyno achos busnes priodol i'r Cynulliad, ac fe'i hystyrir ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill sydd yn cystadlu am gyllid.

### Aricept

**Peter Black:** Pa gynlluniau sydd i drefnu bod Aricept (donepezil hydrochloride) ar gael i'r rhai sydd yn dioddef o glefyd Alzheimer ar draws yr NHS yng Nghymru? (WAQ8564)

**Jane Hutt:** Mae Aricept ar gael dan y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae rhan fwyaf yr awdurdodau iechyd wedi datblygu polisïau yn unol â chyngor Fforwm Meddyginiaethau Cymru Gyfan a'r canllawiau a baratowyd gan y Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog Meddygaeth yn 1998 ar ddefnyddio cyffuriau ar gyfer dryswch. Iechyd Morgannwg yw'r eithriad, sydd yn darparu'r cyffur dan fframwaith y prawf clinigol AD2000.

Dylid dechrau a goruchwylio'r driniaeth gan arbenigwr sydd â phrofiad o reoli dryswch a dylid asesu'r manteision yn rheolaidd drwy gynnal asesiad gwybyddol bob tri mis. Os nad yw cleifion yn ymateb i'r driniaeth, ni ddylid parhau â hi.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Adran Iechyd wedi gofyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol gynnal gwerthusiad awdurdodol o'r dystiolaeth ar Aricept. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn disgwyl gallu cyhoeddi ei ganllawiau i'r NHS y mis hwn. Byddem yn disgwyl i'r polisïau cael eu diwygio fel sydd yn briodol er mwyn cynnwys ystyriaethau'r gwerthusiad hwn pan fydd ar gael.

### Gwasanaethau Ymatal

**Ann Jones:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i ddatblygu gwasanaethau ymatal integredig gan ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yng Nghymru? (WAQ8565)

**Jane Hutt:** Awdurdodau iechyd sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ymatal. Mae llawer o becynnau gofal cymunedol yn cynnwys gwasanaethau ymatal fel rhan o'r pecyn gofal cyffredinol. Yr oedd Deddf Iechyd 1999 wedi galluogi dull gweithredu a oedd yn golygu mwy o gydweithio o ran cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Byddem yn disgwyl i'r awdurdodau lleol weithio gydag ymddiriedolaethau'r NHS ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu dull gweithredol cydlynus ar gyfer pob gwasanaeth gofal cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau ymatal.

**Pwysau’r Gaeaf ar Ysbytai Cymru**

**Nick Bourne:** Pa fesurau a roddwyd ar waith yn ystod y 12 mis diwethaf i fynd i’r afael ag effeithiau pwysau’r gaeaf ar ysbytai Cymru? (WAQ8566)

**Jane Hutt:** Ym Mai, dyrannais £40 miliwn i gymunedau iechyd i fynd i’r afael â phwysau brys a rhestrau aros. Mae cynlluniau penodol yn cynnwys:

- sefydlu’r tasglu pwysau brys, sydd bellach wedi cyflwyno adroddiad;
- anfon canllawiau manwl ar gynllunio ar gyfer y gaeaf i holl fudiadau partner yr NHS;
- targedu imiwneiddio i’r rheini sydd yn 65 oed a throsodd a grwpiau eraill sydd yn wynebu risg uchel;
- cynnal ymgyrch ‘Gofal Piau Hi’r Gaeaf Yma’;
- cyflwyno gwelyau a staff meddygol a gofal critigol ychwanegol;
- cyflwyno adroddiadau wythnosol a dyddiol i alluogi ymddiriedolaethau’r NHS, awdurdodau iechyd a’r Cynulliad i fonitro a rheoli pwysau;
- cyflwyno system fonitro fisol i fonitro faint o achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal sy’n digwydd a beth yw achos hynny;
- sefydlu timau ymateb-yn-syth a chynlluniau ailalluogi cymunedau i ostwng y nifer sydd yn dod i ysbytai, heb fod angen a hwyluso rhyddhau pobl o’r ysbyty yn brydlon.

**Practisiau Meddygon Teulu yng Ngorllewin De Cymru**

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ5433, a fyddai Jane Hutt cystal â rhestru’r holl bractisiau meddygon teulu yn Ngorllewin De Cymru ynghyd â nifer y cleifion sydd wedi’u cofrestru ym mhob practis unigol? (WAQ8601)

**Jane Hutt:** Rhoddir yr wybodaeth yn y tabl isod.

**Gorllewin De Cymru**
**Rhestr feddygol iechyd ar 1 Hydref 2000**

| Enw a chyfeiriad y feddygfa | Cyfanswm nifer y cleifion |
|---|---|
| Canolfan Iechyd, Pontardawe | 10,063 |
| Meddygfa Newcastle, Heol Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr | 4,538 |
| 88 Mynydd, Heol Garnlwyd, Clas | 4,536 |
| Stryd Princess, Gorseinon | 7,919 |
| Canolfan Feddygol, Queens Rd, Sgiwen | 7,618 |
| Heathbridge House, The Old Bridge, Mynydd Cynffig | 6,860 |
| Y Feddygfa, Heol Llangyfelach, Brynhyfryd | 5,735 |
| Y Feddygfa, Heol De La Beche, Sgeti | 18,279 |
| Canolfan Iechyd, Cwmafan | 3,451 |
| Canolfan Iechyd Nicholl Street, Abertawe | 5,719 |
| 125 Heol Port Tennant, Abertawe | 4,355 |
| 3 Frederick Place, Llansamlet | 8,058 |
| Ysgol Street, St Thomas | 8,710 |
| Canolfan Iechyd, Glyncorrwg | 1,576 |
| Canolfan Iechyd, Blaengwynfi | 1,767 |
| Meddygfa Tal-y-Bont, Heol yr Orsaf, Pontarddulais | 5,379 |
| Meddygfa, Heol Margam, Port Talbot | 9,344 |
| 108 Heol Penygraig, Mayhill | 4,490 |

| | |
|---|---|
| Meddygfa Newydd, Victoria Street, Pontycymmer | 8,273 |
| Scurlage, Reynoldston, Gŵyr | 6,194 |
| 151 Heol San Helen, Abertawe | 6,873 |
| Canolfan Iechyd, Aberafan | 8,105 |
| Canolfan Iechyd, Llansawel | 6,056 |
| Princess Street, Gorseinon | 2,913 |
| Practis Meddygol y Mwmbwls, 10 West Cross Avenue, Norton, Y Mwmbwls | 8,466 |
| Y Ganolfan Feddygol, Heol-yr-Onnen, Pen-coed | 5,200 |
| 139/140 Heol San Helen, Abertawe | 7,889 |
| Church Rd, Blaendulais, Castell-nedd | 4,983 |
| Y Feddygfa Newydd, 3 New Street, Abercynffig | 3,955 |
| Y Feddygfa, Heol Sway, Treforys | 8,805 |
| Meddygfa'r Castell, 1 Prince of Wales Drive, Castell-nedd | 9,816 |
| Y Feddygfa, Woodlands Terrace, Caerau | 5,822 |
| Meddygfa Oldcastle, South St, Pen-y-bont ar Ogwr | 13,737 |
| Meddygfa Tyn-y-Coed, 20 Merfield Close, Bryncethin | 7,590 |
| Canolfan Feddygol Tawe, St Thomas | 4,061 |
| Canolfan Iechyd, Castell-nedd | 9,705 |
| Canolfan Iechyd, Fforest-fach | 5,910 |
| Meddygfa Newydd, Coychurch Road, Pen-coed | 6,364 |
| Canolfan Feddygol Tre-Gŵyr, Mill Street, Tre-Gŵyr | 11,466 |
| Canolfan Iechyd, Llansawel | 6,123 |
| Meddygfa Ogmore Vale, Commercial Street, Ogmore Vale | 4,379 |
| 65 Heol Walter, Abertawe | 6,453 |
| Canolfan Feddygol Cwmfelin, Heol Caerfyrddin, Abertawe | 7,870 |
| Meddygfa New Cross, 48 Heol Sway, Treforys | 6,668 |
| Canolfan Iechyd, Clydach | 10,801 |
| Meddygfa Llynfi, Maesteg | 9,167 |
| Meddygfa Ffordd y Brenin, 37 Ffordd y Brenin, Abertawe | 8,876 |
| Meddygfa Tŷ'r Felin, Heol Cecil, Gorseinon | 10,066 |
| Riversdale House, Heol Merthyrmawr, Pen-y-bont ar Ogwr | 15,118 |
| Canolfan Iechyd, Fforest-fach | 6,940 |
| Meddygfa Kings Rd, Y Mwmbwls | 3,925 |
| Canolfan Feddygol Fairfield, Julian Terrace, Port Talbot | 6,622 |
| 36 Victoria Avenue, Porth-cawl | 2,425 |
| 21 Heol Mansel, Bon-y-maen, Abertawe | 1,273 |
| 4 Heol Gwilym, Cwmllynfell | 1,556 |
| Canolfan Iechyd, Pen-clawdd | 1,967 |
| Y Feddygfa, Gerddi Victoria, Castell-nedd | 2,355 |
| Three Crosses, Abertawe | 1,340 |
| 89 Stryd Fawr, Ogmore Vale | 1,159 |
| 160 Stryd Fawr, Abertawe | 1,942 |
| Clinig Dew Road, Port Talbot | 1,881 |
| Canolfan Iechyd, Resolfen | 1,956 |
| Y Feddygfa, Nantyffyllon | 2,635 |
| Canolfan Feddygol Cheriton, Cheriton Crescent, Portmead, Abertawe | 2,636 |
| Canolfan Feddygol St James, Stryd Herbert, | 859 |

| | |
|---|---|
| Pontardawe | |
| Clinig Glanrhyd, Nant-y-moel, Pen-y-bont ar Ogwr | 2,413 |
| 5 Strawberry Place, Treforys | 6,226 |
| 48 Heol Sgeti, Uplands | 8,012 |
| Canolfan Feddygol, Y Brifysgol | 7, 082 |
| Canolfan Iechyd, Y Cymer | 2,615 |
| Meddygfa Kings, Canolfan Iechyd, Aberafan | 5,007 |
| Heol Treforys, Port Talbot | 4,427 |
| Victoria Gardens, Castell-nedd | 8,381 |
| Bod Feddyg, 102 Stryd Fawr, Glyn-nedd | 6,853 |
| Bron-y-Garn, Maesteg | 5,018 |
| Stryd Eligin, Trefansel, Abertawe | 6,939 |
| 1 The Portway, Porth-cawl | 14,638 |
| 4 Tabernacle St, Sgiwen | 4,377 |
| Y Feddygfa, Gogledd Corneli | 8,845 |
| Ashfield, Heol Merthyrmawr, Pen-y-bont ar Ogwr | 7,004 |
| 89 Stryd Aberdyberthi, Hafod | 1,627 |
| 4 Lôn Teify, Cocket, Abertawe | 1,682 |

**Pecynnau 'Complementary Medicine'**

**Kirsty Williams:** Ym Mehefin 2000, dosbarthwyd dau becyn o dan y teitl 'Complementary Medicine' i glinigwyr gofal sylfaenol yn Lloegr. A fydd fersiwn ar gyfer Cymru, ac os na fydd, beth yw'r rheswm am hynny? (WAQ8602)

**Jane Hutt:** Cynhyrchwyd y pecynnau 'Complementary Medicine' ar y cyd rhwng pedwar mudiad, gan gynnwys yr Adran Iechyd, fel deunydd cyfeirio sylfaenol ar y therapïau cyflenwol ac amgen mwyaf poblogaidd. Eglurodd yr Adran Iechyd nad bwriad y pecynnau oedd daprau canllawiau na disodli barn glinigol unigol.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn disgwyl am adroddiad Pwyllgor Dethol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi ar feddyginiaeth gyflenwol ac amgen cyn penderfynu ar y ffordd orau o fynd ar drywydd hyn yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn bellach wedi ei gyhoeddi ac ar hyn o bryd mae'r Adran Iechyd yn ystyried ei argymhellion. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd yn hyn o beth.

Bydd cynrychiolwyr o Goleg Therapïau Cyflenwol Cymru yn cwrdd â swyddogion yn Ionawr i drafod defnyddio meddyginiaethau cyflenwol ac amgen yn yr NHS.

**Argymhellion Asiantaeth Safonau Bwyd ar CJD**

**Dafydd Wigley:** Pa newidiadau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gweithredu ar sail argymhellion yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch afiechyd Creutzfeldt-Jakob? (WAQ8631)

**Jane Hutt:** Mae Asiantaeth Safonau Bwyd y DU yn gyfrifol am gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddiogelwch a safonau bwyd. Disgwylir adroddiad yr asiantaeth ar reolaethau enseffalopathi sbyngffurf buchol cyn y Nadolig. Byddwn yn astudio'r adroddiad ac yn ystyried pa gamau pellach allai fod yn briodol.

**Darparu Beta-Interferon i Ddioddefwyr Sglerosis Ymledol**

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Jane Hutt gyhoeddi yn llawn unrhyw sylwadau neu dystiolaeth a wnaethpwyd ganddi i bwyllgor y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ynglŷn â darparu Beta-Interferon i ddioddefwyr MS? (WAQ8630)

**Jane Hutt:** Mae'r sefydliad yn dal wrthi'n cynnal ei werthusiad annibynnol o Beta-Interferon. Ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau yn gyhoeddus cyn i'r gwerthusiad gael ei gwblhau. Byddaf yn trefnu i gopïau llawn o'r cyflwyniadau a wnaethpwyd i'r pwyllgor gwerthuso gael eu rhoi yn Llyfrgell y Cynulliad yn ddiymdroi wedyn.

**Ymchwiliad Barnwrol i'r Clefyd CJD**

**Dafydd Wigley:** Pa gyfarwyddyd mae Jane Hutt wedi ei anfon i ysbytai Cymru yn deillio o'r ymchwiliad barnwrol i'r clefyd CJD, ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater hwn? (WAQ8634)

**Jane Hutt:** Cyhoeddasom ganllawiau, 'Creutzfeldt-Jakob Disease Guidance for Health Care Workers', ar 26 Hydref, er mwyn cyd-daro â chyhoeddi adroddiad ymchwiliad Phillips. Byddwn yn diweddaru'r canllawiau hynny yng ngoleuni ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y rhoddodd perthnasau dioddefwyr amrywiolyn CJD dystiolaeth iddo yn ddiweddar.

**Defnyddio'r Sector Annibynnol mewn Gofal Iechyd**

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar sut y defnyddir y sector annibynnol mewn gofal iechyd yng Nghymru? (WAQ8639)

**Jane Hutt:** Ni chedwir yr wybodaeth hon yn ganolog. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol bod nifer o ymddiriedolaethau Cymru yn contractio achosion dewisol i'r sector annibynnol i wella'u perfformiad o ran targedau'r rhestrau aros. Ar ben hynny, mae ystadegau ar gael sydd yn nodi cyfraniad y sector annibynnol, fel canran o'r cyfanswm, i wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol (e.e. sesiynau gofal dydd, oriau gofal yn y cartref a lleoliadau mewn cartrefi nyrsio annibynnol a llety preswyl). Rhoddir manylion yr ystadegau hyn yn y tabl isod.

**Gwasanaethau Cymdeithasol—Darpariaeth annibynnol ar gyfer oedolion ar 31 Mawrth 1999**

| | | Darparwr: | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Awdurdod Lleol | Annibynnol | % a ddarparwyd gan y sector annibynnol |
| Sesiynau gofal dydd | 4,202,500 | 4,027,500 | 175,000 | 4.2 |
| Oriau gofal yn y cartref | 8,770,000 | 5,870,000 | 2,900,000 | 33.1 |
| Gwasanaeth prydau bwyd (cyfanswm y prydau) | 3,010,840 | 2,720,840 | 290,000 | 9.6 |
| Lleoliadau mewn llety preswyl | 17,300 | 5,600 | 11,700 | 67.6 |
| **Darpariaeth annibynnol arall** ar 31 Mawrth 2000 (dros dro) | | | | |
| Cyfanswm nifer y gwelyau mewn cartrefi nyrsio/ysbytai/hosbisau/ Clinigau annibynnol | | | | 11,720 |

**Amser Aros am Driniaeth mewn Ysbytai ar Gyfartaledd**

**Nick Bourne:** Beth yw'r amser aros am driniaeth mewn ysbyty ar gyfartaledd yn ardal Ceredigion a chanolbarth Cymru? (WAQ8640)

**Nick Bourne:** Beth yw'r amser aros am driniaeth mewn ysbyty ar gyfartaledd yn ardal Sir Gaerfyrddin? (WAQ8641)

**Nick Bourne:** Beth yw'r amser aros am driniaeth mewn ysbyty ar gyfartaledd yng ardal Sir Benfro a Derwen? (WAQ8642)

**Nick Bourne:** Beth yw'r amser aros am driniaeth mewn ysbyty ar gyfartaledd yn ardal Powys? (WAQ8643)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth ddibynadwy ar gael am amser aros am driniaeth mewn ysbyty ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos, yn ôl hyd yr arhosiad, nifer trigolion Cymru oedd yn aros am driniaeth cleifion mewnol neu driniaeth achos-dydd yn yr ymddiriedolaethau NHS perthnasol ar 31 Hydref 2000.

**Trigolion Cymru sydd yn aros am driniaeth cleifion mewnol neu driniaeth achos-dydd (1)**

| | Aros dros 3m | Aros dros 6m | Aros dros 12m | Aros dros 18m | Cyfanswm sydd yn aros |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 1,353 | 873 | 275 | 22 | 2,108 |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin | 4,169 | 2,730 | 1,150 | 416 | 7,241 |
| Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen | 2,574 | 1,965 | 785 | 140 | 3,493 |
| Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Powys | 100 | 36 | 0 | 0 | 306 |

**1.** Efallai fod rhai o'r cleifion a oedd yn aros am dros 18 mis yn aros am ail apwyntiad oherwydd nad oeddent yn gallu mynd i apwyntiad cynharach a gynigiwyd iddynt.

**Gwelyau Ychwanegol yn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys**

**Nick Bourne:** Faint o welyau ychwanegol sydd bellach ar gael yn ysbytai Awdurdod Iechyd Dyfed Powys? (WAQ8644)

**Jane Hutt:** Yn dilyn arolwg gwelyau a gynhaliwyd yn ddiweddar ar 28 Tachwedd 2000, yr wyf wedi cael gwybod gan wahanol ymddiriedolaethau yn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys bod chwe gwely ychwanegol ar gyfer gofal aciwt a thri gwely ar gyfer gofal critigol ar gael eleni.

Ar ben hynny, yr wyf hefyd wedi cael gwybod bod yr ymddiriedolaethau yn yr ardal yn rhagweld 20 gwely aciwt ychwanegol erbyn diwedd Ionawr 2001.

**Adroddiad y Grŵp Pwysau Gaeaf**

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd er mwyn rhoi adroddiad y Grŵp Pwysau Gaeaf ar waith? (WAQ8645)

**Jane Hutt:** Adlewyrchwyd canfyddiadau'r tasglu pwysau brys yn y canllawiau cynllunio a gyhoeddwyd i'r NHS a'i bartneriaid yn Awst ac mae fy swyddogion yn monitro'r cynnydd tuag at roi'r canllawiau ar waith. Er mwyn cefnogi'r canllawiau hyn a mynd i'r afael ag amseroedd/rhestrau aros, yr wyf wedi clustnodi £40 miliwn ychwanegol ar gyfer cymunedau iechyd yng Nghymru, y tu hwnt i'r dyraniadau sylfaenol ar gyfer 2000-01.

O ganlyniad, mae amrywiaeth mawr o wasanaethau wedi eu cyflwyno ledled Cymru erbyn y gaeaf, megis:

- ymgyrch cydlynol i hyrwyddo imiwneiddio, a galluogi pobl i ofalu amdanynt eu hunain a defnyddio gwasanaethau yn briodol;

- timau ymateb cyflym i hwyluso rhyddhau pobl o ysbytai yn ddiogel ac yn brydlon ac ar gyfer darparu dewision diogel a phriodol eraill yn lle derbyn pobl i ysbytai aciwt;
- cynlluniau i gynorthwyo cleifion sydd ag afiechydon cronig yn y gymuned; ac
- ambiwlansiau sydd yn benodol ar gyfer sicrhau y caiff cleifion eu trosglwyddo'n brydlon.

Mae pob awdurdod iechyd wedi cynhyrchu cynllun gaeaf ac wedi sefydlu timau gweithredu pwysau brys, a fydd yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y gaeaf i sicrhau bod y pwysau yn cael ei reoli. Ar 21 Tachwedd, cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol system i roi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf, i gynnwys adroddiadau dyddiol gan yr ymddiriedolaethau ar eu statws presennol a sefydlwyd gwefan gan yr NHS i annog ymarfer da a chadw cysylltiad byw dyddiol ag amgylchiadau lleol. Yn hyn oll, mae'r NHS, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid eraill wedi bod yn cydweithio'n agos.

Dyrannwyd rhan fwyaf y £40 miliwn ar sail gylchol er mwyn gallu trin mwy o gleifion yn y tymor hir. O ganlyniad, mae meddygon ymgynghorol ychwanegol wedi'u penodi a gwelyau newydd wedi'u darparu eisoes. Ar 28 Tachwedd, adroddodd yr NHS yng Nghymru wrthyf fod 71 o welyau gofal aciwt newydd, ac 11 o rai critigol, yn ogystal â bod 23 o feddygon ymgynghorol ychwanegol wedi'u penodi yng Nghymru.

### Hormon Twf Dynol ac Amrywiolyn CJD

**Peter Rogers:** O'r achosion o amrywiolyn CJD sydd wedi'u cadarnhau, faint o'r dioddefwyr y gwyddom iddynt gael eu trin â hormon twf dynol? (WAQ8646)

**Jane Hutt:** Caiff cleifion sydd wedi cael eu trin â hormon twf dynol ac sydd ar ôl hynny wedi datblygu CJD eu cofnodi yng ngholofn 'iatrogenig' ystadegau misol Uned Goruchwylio CJD. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gael dan http://www.doh.gov.uk/cjd/stats/dec00.htm

Caiff amrywiolyn CJD ei achosi gan yr hil BSE penodol. Cafodd sypiau o hormon twf dynol eu heintio gan CJD clasurol yn ystod y 1970au a'r 1980au. Bryd hynny, yr oedd hormon twf dynol yn cael ei wneud o chwarennau pitwïdol pobl a oedd yn cael archwiliadau post mortem. Daeth cynhyrchu hormon twf dynol o ymennydd pobl i ben ar ôl canfod y cysylltiad.

Er na ŵyr neb am gysylltiadau ar hyn o bryd rhwng derbyn hormon twf dynol yn y gorffennol ac amrywiolyn CJD, ni ellir anwybyddu cysylltiad posibl o'r fath wrth i nifer yr achosion o CJD, gyda'u gwahanol gefndir meddygol, godi.

### Gweinyddu'r Gyfundrefn Presgripsiwn

**Dafydd Wigley:** Beth yw ymateb Jane Hutt i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sydd yn awgrymu bod £15 miliwn y flwyddyn yn cael ei golli o'r pwrs cyhoeddus oherwydd camgymeriadau wrth weinyddu'r gyfundrefn presgripsiwn yng Nghymru? (WAQ8676)

**Jane Hutt:** Croesawaf adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 'Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau', a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2000. Mae Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad yn ystyried yr adroddiad ac yn cymryd tystiolaeth ganddo a bydd Cabinet y Cynulliad yn llunio ei ymateb yn sgil adroddiad y Pwyllgor i Brif Weinidog Cymru.

Nid wyf am achub y blaen ar waith y Pwyllgor Archwilio nac ar ein hymateb manwl i'w canfyddiadau, ond gallaf ddweud ar ôl ei ddarllen unwaith ei fod yn edrych fel adroddiad a fydd o gymorth mawr. Mae'r canfyddiadau yn sylfaen i gynllun y Cynulliad i frwydro yn erbyn twyll yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Yn enwedig, maent yn cydnabod pwysigrwydd y trefniadau yr ydym yn eu sefydlu ar gyfer cyflwyno ffioedd dirwy, ac ar gyfer cyflwyno archwiliadau ar eithriadau oedran mewn mannau dosbarthu. Yr wyf yn edrych ymlaen at glywed safbwyntiau ystyriol y Pwyllgor Archwilio ar argymhellion yr adroddiad.

### Clinigau Rheoli Poen

**David Melding:** Beth mae'r Weithrediaeth yn ei wneud i annog datblygiad clinigau rheoli poen yng Nghymru? (WAQ8680)

**Jane Hutt:** Mae adolygiad Pwyllgor Meddygol Cymru o wasanaethau poen a gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Dr G Arthurs, Cadeirydd Cymdeithas Poen Cymru, sydd yn arwain yr is-grŵp ar gyfer rheoli poen cronig. Bydd yr adolygiad yn cynhyrchu adroddiad ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau, adolygu'r safonau y dylai'r NHS fod yn eu bodloni a bydd yn cynhyrchu rhestr o argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y gwasanaeth.

Byddaf yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r adolygiad ar ofal poen a gofal lliniarol mewn Cyfarfod Llawn yn Ebrill 2001.

### Trwythiadau Lignocaine

**David Melding:** A yw trwythiadau lignocaine yn cael eu defnyddio yn NHS Cymru i drin poen cronig? (WAQ8681)

**Jane Hutt:** Defnyddir trwythiad lignocaine (lidocaine) yn helaeth ar gyfer rheoli poen tymor byr, er enghraifft mewn epidwrol. O ran rheoli poen cronig, fe'i defnyddir yn bennaf fel arf diagnostig. Mae rhai cleifion sydd mewn poen cronig a allai elwa ar drwythiad mewnwythiennol untro, gyda'r bwriad o dorri cylch dieflig y boen a galluogi cyflwyno dulliau eraill o reoli poen. Barn glinigol sydd i benderfynu a ddefnyddir ef ai peidio, gan ystyried anghenion y claf unigol. Oherwydd nodweddion eraill y cyffur (fe'i defnyddir hefyd i sefydlogi rhythmau'r galon) rhaid ei fonitro'n ofalus ac fel arfer dim ond ar gyfer cleifion mewnol yn yr ysbyty y byddai'n cael ei ddefnyddio.

Mae Pwyllgor Meddygol Cymru yn adolygu gwasanaethau poen yng Nghymru ac mae wedi comisiynu adroddiad ar reoli poen, a fydd yn pennu'r safonau presennol ar gyfer poen aciwt a phoen chronig ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Disgwylir y cyhoeddir yr adroddiad ar 6 Ebrill 2001, i gyd-daro â chynhadledd bwysig ar y pwnc yng Nghymru.

### Y Gost o Drosglwyddo i'r Ewro (Ymchwiliadau a Gynhaliwyd)

**David Davies:** Pa ymddiriedolaethau'r NHS sydd wedi cynnal ymchwiliadau i'r gost o drosglwyddo i'r ewro? (WAQ8684)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi gofyn i ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru gynnal ymchwiliadau i'r gost o drosglwyddo i'r ewro.

### Y Gost o Drosglwyddo i'r Ewro (Cynlluniau i Gynnal Ymchwiliadau)

**David Davies:** A oes cynlluniau ar y gweill i fynnu bod ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru yn cynnal ymchwiliadau i'r gost o drosglwyddo i'r ewro? (WAQ8685)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, nid oes gennyf gynlluniau i wneud hyn ond yr ydym yn gweithio gyda gweithrediaeth yr NHS yn Lloegr, lle mae rhai o gyrff unigol yr NHS yn paratoi bras gynlluniau er mwyn dangos sut y byddent yn delio â chyflwyniad posibl yr ewro.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Cynllun Datblygu Gwledig

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog dros Faterion Gwledig ddatganiad ynghylch cynllun datblygu gwledig Cymru? (WAQ8568)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Cymeradwywyd cynllun datblygu gwledig Cymru yn ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 11 Hydref. Mae gwaith yn bwrw ymlaen erbyn hyn i roi mesurau'r cynllun ar waith.

**Sŵn sydd yn dod o Chwareli**

**Alun Cairns:** Beth fydd goblygiadau cynllun datblygu gwledig Cymru o ran y sŵn sydd yn dod o chwareli? (WAQ8569)

**Carwyn Jones:** Ni cheir unrhyw oblygiadau. Mae cynllun datblygu gwledig Cymru yn berthnasol i fesurau a ganiateir dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 yn unig.

**Twristiaeth Fferm**

**Alun Cairns:** Pa gefnogaeth sydd ar gael i ffermwyr sydd am arallgyfeirio i faes twristiaeth? (WAQ8625)

**Alun Cairns:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar lwyddiant neu fethiant cynllun cronfeydd strwythurol Cymru wledig 5(b) i gefnogi twristiaeth fferm? (WAQ8626)

**Alun Cairns:** Pa fesurau a gyflwynwyd i gefnogi arallgyfeirio ffermydd i faes twristiaeth? (WAQ8627)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad yn datblygu amrywiaeth o gynigion ar gyfer cynorthwyo ffermwyr i fabwysiadu'r arferion gorau, cael y perfformiad gorau bosibl o'r busnes a chanfod ac ymelwa ar gyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ffynonellau incwm eraill, gan gynnwys twristiaeth fferm. Daw cefnogaeth ar gyfer y cynigion hyn gan Amcan 1, Amcan 2 a'r cynllun datblygu gwledig a fydd yn sicrhau bod yr un gwasanaethau ar gael i ffermwyr o Fôn i Fynwy.

Rhan allweddol o'r cynigion hyn yw'r grantiau cyfalaf, y grant gwella ffermydd a'r grant menter ffermydd. Fel yr awgryma'r enw, bydd y grant menter ffermydd yn helpu ffermwyr i symud i feysydd newydd, un ai rhai sydd yn uniongyrchol berthnasol i amaethyddiaeth (e.e. cnydau newydd ayb.) neu rai sydd wedi'u hanelu at sectorau eraill (e.e. twristiaeth fferm ayb.); a chynorthwyo ffermwyr i ddechrau o'r newydd, a datblygu prosesu gwerth ychwanegol sydd eisoes yn bodoli, ar raddfa fach.

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn datblygu'r union fecanweithiau ar gyfer cyflwyno'r mesurau hyn, gan weithio gyda'r diwydiant ehangach, gan gynnwys undebau'r amaethwyr a chlybiau ffermwyr ifanc, ond bydd cymorth ar gael i bob unigolyn sydd â rhif daliad cyn belled â bod eu daliad yn hyfyw a'u bod yn cydymffurfio ag ymarfer ffermio da. Dim ond drwy gyswllt ffermio y bydd y grantiau ar gael er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau busnes priodol eu paratoi a bod gan y ffermwr (neu aelod o'r teulu ffermio) y sgiliau perthnasol i gefnogi'r gweithgarwch sydd yn derbyn cymorth grant, neu'n dysgu'r sgiliau hynny.

Ar ben hynny, yr ydym yn gweithio gyda Bwrdd Croeso Cymru i sicrhau bod eu cynigion yn cyd-fynd â'r gweithgarwch a gefnogir drwy'r grant menter ffermydd.

Nod cyffredinol rhaglen Cymru wledig Amcan 5B 1994-99 oedd datblygu ffyrdd o warchod y cyfraniad a wnaed gan y sectorau amaeth a choedwigaeth o fewn cwmpas y rhaglen, a'i gynyddu, lle y bod modd, drwy amrywiaeth fwy o weithgareddau. Mae dros £24 miliwn o grantiau wedi cefnogi 163 o brosiectau ac mae 29 o'r rheini yn brosiectau amaeth-dwristiaeth, gyda thua £3.9 miliwn o grantiau. Mae'r prosiectau wedi cynnwys gweithgarwch fel datblygu a hyrwyddo llety, atyniadau a chyfleusterau hamdden fferm, ac maent yn cynnwys prosiect Bwrdd Croeso Cymru o'r enw Cefnogi Twristiaeth Fferm ledled Cymru wledig, sydd yn cael ei gefnogi gan £360,000 o nawdd. Mae'r prosiect yn darparu cymorth ariannol tuag

at wella llety ac atyniadau twristiaeth fferm a chaiff ei gefnogi gan gyngor busnes ac amgylcheddol, ac mae wedi cefnogi 57 o gynlluniau a chreu 63 o swyddi llawn amser.

Mae'r Cynulliad, a'r Swyddfa Gymreig o'i flaen, wedi darparu tua £4.7 miliwn o arian cyfatebol ar gyfer elfen cronfa gyfarwyddo a gwarantu amaethyddol Ewrop o raglen Cymru wledig Amcan 5b drwy'r cynllun Grant Datblygu Gwledig (Amaethyddiaeth Cymru). Dyfarnwyd cyfanswm o dros £2.5 miliwn o nawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i 14 o brosiectau.

**Cynllun Ymddeol yn Gynnar i Ffermwyr**

**Nick Bourne:** A wnaiff Carwyn Jones hybu cynllun ymddeol yn gynnar i ffermwyr? (WAQ8665)

**Carwyn Jones:** Nid oes gennyf gynlluniau i hyrwyddo cynllun ymddeol yn gynnar i ffermwyr. Yr wyf wedi penderfynu y byddai'n well anelu'r adnoddau a fyddai'n angenrheidiol i gyllido cynllun o'r fath tuag at fesurau eraill i gynorthwyo'r diwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys nawdd ychwanegol ar gyfer mesurau datblygu amgylcheddol, organig a gwledig.

**Tir Gofal**

**Nick Bourne:** A wnaiff Carwyn Jones geisio symleiddio'r broses o wneud cais am gyllid Tir Gofal? (WAQ8666)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi comisiynu cyfrif stoc trylwyr o Tir Gofal ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd. Bydd yn ceisio lleihau baich y costau gweinyddol, yn sicrhau ein bod yn ennyn y budd mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael, ac yn helpu i sicrhau y gall ffermydd teuluol ddefnyddio'r cynllun. Bydd hefyd yn cynnwys archwiliad o'r broses ymgeisio.

**Effaith yr Ofnau ynghylch BSE ar Amaethyddiaeth yng Nghymru**

**Nick Bourne:** Pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith yr ofnau diweddaraf ynghylch enseffalopathi sbyngffurf buchol yn Ewrop ar amaethyddiaeth yng Nghymru, ac a wnaiff Carwyn Jones gyhoeddi unrhyw asesiad o'r fath? (WAQ8667)

**Carwyn Jones:** Mae unrhyw ostyngiad yn hyder y defnyddwyr mewn bwyd yn effeithio ar yr Undeb Ewropeaidd i gyd. Cig eidion Prydain yw'r mwyaf diogel yn y byd oherwydd y rheoliadau iechyd y cyhoedd a'r rheoliadau iechyd anifeiliaid llym sydd gennym mewn grym.

Bydd y rheoliadau ar gyfer anifeiliaid dros 30 mis oed, a lledaenu'r gwaharddiad ar fwyd, bellach yn dod yn gyffredin ledled yr UE, a bydd yn sicrhau mwy o degwch i'n cynhyrchwyr.

**Costau Hylendid Cig**

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Carwyn Jones wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU i leihau costau hylendid cig a chynorthwyo unedau prosesu bach? (WAQ8668)

**Carwyn Jones:** Ers peth amser, yr wyf wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth y DU i roi argymhellion adroddiad MacLean ar waith. Cymerodd y Cynulliad Cenedlaethol yr awenau o ran darparu ar ei gyfer yng nghyllideb 2001-02 er mwyn rhoi'r adroddiad ar waith yng Nghymru.

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi, ar 28 Tachwedd, ymrwymiad i ddarparu cefnogaeth ar gyfer lladd-dai bach a chanolig eu maint.

Maes o law, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi manylion ynghylch sut y gweithredir cynllun i helpu lladd-dai llai.

### Buddsoddiad mewn Amaethyddiaeth a'r Diwydiant Cynhyrchu Bwyd

**Nick Bourne:** A wnaiff Carwyn Jones gyhoeddi ei argymhellion ar gyfer sicrhau buddsoddiad mewn amaethyddiaeth a'r diwydiant cynhyrchu bwyd yng Nghymru? (WAQ8669)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi ei gynlluniau a nodir yn y ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 1 a'r cynllun datblygu gwledig er mwyn diogelu buddsoddiad mewn amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd yng Nghymru. Mae'r rhain yn datblygu'r cynigion a bennwyd yn y cynlluniau gweithredu sectoraidd a gyhoeddwyd dan y strategaeth amaeth-bwyd a 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' ac maent yn rhoi cyfle i ddatblygu yn y dyfodol i gefnogi'r sector.

Mae copïau o'r dogfennau ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

### Bovine Somatotrophin

**Peter Rogers:** O'r achosion o wartheg â BSE yng Nghymru, faint ohonynt y mae'n hysbys eu bod wedi cael eu trin â Bovine Somatotrophin? (WAQ8670)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth hon wedi ei chofnodi.

### Tir Mynydd

**Glyn Davies:** A wnaiff Carwyn Jones roi dyddiad ar ôl 15 Mai i geiswyr Tir Mynydd benderfynu pa dir i'w aredig er mwyn cydymffurfio â'r cymhwyster âr ar gyfer yr elfen amgylcheddol? (WAQ8689)

**Carwyn Jones:** Na wnaf. Cynllun sydd yn seiliedig ar y tir yw Tir Mynydd. Yr oedd y ceisiadau am gymorth ardal IACS 2000 hefyd yn cael eu defnyddio fel ffurflen hawlio Tir Mynydd 2001, a 15 Mai oedd y dyddiad cau ar ei gyfer. Gofynnwyd i ffermwyr a oedd yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer y gwelliant âr dan elfen 2 Tir Mynydd, i ddarparu manylion am eu cnydau ar y ffurflen IACS fel ag yr oedd ar 15 Mai. Eglurwyd hyn yn llyfryn esboniadol IACS 2000. Mae'r un amod yn berthnasol i'r gwelliant tebyg dan y cynllun lwfans ffermydd mynydd newydd yn Lloegr.

### Chwyth-Flingo Ŵyn

**Glyn Davies:** Hyd at ba bwysau y caniateir chwyth-flingo ŵyn ac a wnaiff Carwyn Jones gynyddu'r pwysau i hwyluso archebion allforio gwerthfawr? (WAQ8690)

**Carwyn Jones:** Mae deddfwriaeth hylendid cig yr UE yn gwahardd tynnu crwyn defaid a geifr drwy chwyth-flingo mecanyddol ar gyfer anifeiliaid sydd â phwysau byw dros 15kg. Yr ydym wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth y DU i lobïo'r comisiwn i gael gwared ar y cyfyngiad pwysau hwn.

Disgwylir y bydd pwyllgor gwyddonol y Comisiwn Ewropeaidd ar fesurau milfeddygaeth sydd yn ymwneud â Iechyd y Cyhoedd yn ystyried y mater yn Chwefror. Os bydd y Pwyllgor yn argymell cael gwared ar y cyfyngiad pwysau presennol, byddwn yn pwyso am ddiwygiad i ddeddfwriaeth yr UE ar unwaith.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru

**David Davies:** Pa mor aml mae Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru wedi cwrdd ers ei ffurfio yn 1997? (WAQ8554)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Cyfarfu Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru 10 gwaith ers ei ffurfio yn 1997. Cynhaliwyd y cyfarfod olaf ym Mawrth 1999 gyda lansio ei adroddiad terfynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 'Etifeddiaeth Trafnidiaeth yng Nghymru', ac mae copi ohono ar gael yn y Llyfrgell. Un o bwyntiau allweddol Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru oedd y dylai'r Cynulliad ystyried sefydlu corff olynol. Yr wyf wedi gwneud hynny. Cyfarfu Fforwm Trafnidiaeth Cymru am y tro cyntaf ym Mehefin 2000. Bydd yn cwrdd am y pedwerydd tro yn Ionawr 2001. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cael adroddiadau ar y cyfarfodydd.

### Prosiect Ymchwil 'The Bristol Channel Marine Aggregates: Resources and Constraints'

**Alun Cairns:** Beth yw cost prosiect ymchwil 'The Bristol Channel Marine Aggregates: Resources and Constraints'? (WAQ8556)

**Sue Essex:** £532,653 oedd cost yr astudiaeth.

### Adroddiadau Tywod a Graean

**Alun Cairns:** Faint o adroddiadau a gyhoeddwyd o astudiaeth tywod a graean Môr Hafren? (Nid oes dim ar gael yn y Llyfrgell bellach). (WAQ8557)

**Sue Essex:** Cyhoeddwyd 100 copi o'r adroddiad llawn a 200 copi o'r adroddiad crynhoi. Mae copïau ychwanegol o'r ddau ar gael gan Is-adran Cynllunio 4.

### Ffordd Osgoi y Bontnewydd

**Nick Bourne:** A all Sue Essex wneud datganiad ynghylch a fydd ffordd osgoi y Bontnewydd, a gynigiwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1993, yn mynd rhagddo ai peidio? (WAQ8567)

**Sue Essex:** Yr oedd atodiad 1993 i gyhoeddiad 'Ffyrdd yng Nghymru' y Swyddfa Gymreig wedi gosod ffordd osgoi A487 Caernarfon-Bontnewydd yn y rhaglen tymor hir ond ni chafwyd ymrwymiad y byddai'r rhaglen hon yn mynd rhagddi.

Caiff yr achos o blaid cynllun ei ystyried ynghyd â chynigion eraill, fel rhan o ddatblygiad y fframwaith trafnidiaeth, a fydd yn amodol ar ymgynghoriad a dadl yn y flwyddyn newydd.

### Gwesty Allt-yr-Ynys (Pandy)

**David Davies:** A oes unrhyw, gynlluniau i godi arwyddion brown ar yr A465 i ddangos y ffordd i ymwelwyr i Westy Allt-yr-Ynys, sydd yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, ym Mhandy? (WAQ8604)

**Sue Essex:** Nid oes cynlluniau i godi arwyddion brown ar yr A465 i gyfeirio at Westy Allt-yr-Ynys. Gan fod cyfleusterau tebyg ar y gyffordd ym Mhandy (Pandy Inn), byddai codi arwydd ar gyfer Gwesty Allt-yr-Ynys yn pleidio'r naill gyfleuster yn hytrach na'r llall.

### Ymchwil i Effeithiau Sefydlu Ardal Ddiogelu o 500 Metr

**Gwenda Thomas:** Pa ymchwil a wnaeth Sue Essex i effeithiau sefydlu ardal ddiogelu o 500 metr ar y manteision amgylcheddol a ddaw yn sgîl adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru? (WAQ8605)

**Sue Essex:** Nid yw'r Cynulliad wedi ymchwilio i'r effeithiau y gallai ardal ddiogelu o 500 metr ei gael ar gynigion i gloddio glo brig ond yr ydym wedi derbyn nifer o sylwadau am y syniad. Ni wn am ymchwil o'r fath gan unrhyw fudiad arall. Fodd bynnag, cyflwynwyd egwyddor ardaloedd diogelu yn y drafft o 'Polisi Cynllunio Mwynhau (Cymru). Darperir manylion am ardaloedd diogelu ar gyfer graean a glo mewn nodiadau cyngor technegol y disgwyliaf eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yng ngwanwyn 2001.

Bwriadaf gynnal cymaint o ymholiadau ag sydd eu hangen ynghylch ardaloedd diogelu cyn cwblhau'r nodiadau cyngor technegol drafft.

Ar hyn o bryd, mae caniatâd cynllunio ar gyfer cloddio glo brig yn gofyn am atgyweirio ar ôl gorffen y gwaith glo, ac felly mae adennill unrhyw dir diffaith o fewn ffin y safle yn cael ei wneud heb gost i'r cyhoedd.

### Y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Sue Essex gadarnhau fod y safonau a osodir gan y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol yn fandadol fel ffactorau i'w hystyried wrth leoli mastiau ar gyfer trosglwyddyddion ffonau symudol? (WAQ8632)

**Sue Essex:** Yn adroddiad y Grŵp Annibynnol Arbenigol ar Ffonau Symudol (IEGMP) argymhellwyd y dylid, er mwyn bod yn bwyllog, fabwysiadu canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd Anïoneiddio (ICNIRP) ar ymbelydredd a'r cyhoedd yn y DU yn hytrach na chanllawiau'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol (NRPB). Yn sgîl hynny, derbyniodd y Cynulliad y dylai allyriannau o orsafoedd ffonau symudol, yn unol â'r pwyll a argymhellwyd, gydymffurfio â chanllawiau'r ICNIRP ar ymbelydredd a'r cyhoedd a fynegwyd yn argymhelliad Cyngor yr UE ar 12 Gorffennaf 1999 ynghylch cyfyngu cysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig. Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd sefydlog eisoes yn cydymffurfio â chanllawiau'r ICNIRP a bydd pob gorsaf sefydlog newydd hefyd yn cydymffurfio â hwy. Mae papur ymgynghori'r Cynulliad ar 8 Tachwedd, 'Datblygu Mastiau Telathrebu (gan Weithredwyr Systemau'r Cod Telathrebu)', yn cynnwys nodyn cyngor technegol (Cymru) drafft diwygiedig, 19 Telathrebu. Mae'n nodi y

'Dylai pob ymgeisydd gynnwys datganiad gyda'i gais yn nodi y bydd y cyfarpar, pan fydd yn cael ei weithredu, yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn'.

Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 5 Ionawr 2001.

### Safleoedd Tir Llwyd a Thir Gwyrdd

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd wedi eu cymryd i annog datblygu safleoedd tir llwyd, a pha gyfundrefnau sydd wedi eu rhoi ar waith i ffrwyno datblygu safleoedd tir gwyrdd pan fo safleoedd tir llwyd addas ar gael? (WAQ8671)

**Sue Essex:** Mae Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf (Ebrill 1999), yn pwysleisio pwysigrwydd cefn gwlad ac mae'n egluro y dylid datblygu safleoedd tir llwyd, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, yn hytrach na safleoedd tir glas. Ar hyn o bryd, yr wyf yn adolygu canllawiau cynllunio a bydd rhaid ystyried, ymysg pethau eraill, a ddylid cryfhau elfennau'r polisïau presennol sydd yn ymdrin â'r ffordd y defnyddir safleoedd tir llwyd.

### Rhoi Strategaeth Wastraff ar Waith

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i roi strategaeth wastraff ar waith i hybu lleihau pecynnu ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu, ac i ddefnyddio dulliau llosgi a thirlenwi i'r graddau lleiaf posibl? (WAQ8672)

**Sue Essex:** Yr ydym wedi gwneud dechrau effeithiol tuag at gynhyrchu strategaeth wastraff i Gymru. Cawsom ein siomi ar yr ochr orau gan y nifer a ddaeth i'r gynhadledd Herio Gwastraff yng Nghrymu ar 27 a 28 Hydref, a chafwyd llawer o syniadau a oedd yn procio'r meddwl. Yn ddiweddar, yr wyf wedi cynnal trafodaethau ar wahân gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth leol Cymru ac o siroedd a bwrdeistrefi sirol Cymru i geisio sylwadau ynghylch sut y dylai'r strategaeth wastraff fynd rhagddi. Ar 8 Rhagfyr, agorais Fforwm Gwastraff newydd Cymru sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd diwydiant, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol a gofynnwyd i'r fforwm gynorthwyo datblygu'r strategaeth.

Cynigiaf y dylem ddadlau ar y cynigion ar gyfer y strategaeth mewn Cyfarfod Llawn cyn yr haf nesaf ac ymgynghori'n ehangach gyda'r bwriad o gyhoeddi strategaeth ddrafft yn yr hydref.

### A40 (Y Fenter Cyllid Preifat)

**Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Fenter Cyllid Preifat i droi'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr yn ffordd ddeuol? (WAQ8698)

**Sue Essex:** Bydd strategaeth gaffael yr holl welliannau cefnffyrdd a ddaw yn sgîl datblygu fframwaith trafnidiaeth Cymru yn dibynnu ar amgylchiadau cynlluniau unigol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Gwybodaeth ar gyfer Teithwyr Dall a Rhannol-ddall

**David Davies:** Pa ddarpariaeth sydd yn cael ei gwneud i sicrhau bod teithwyr dall a rhannol-ddall yn ddiogel, ac i ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer, o ystyried effeithiau'r duedd gynyddol i ddefnyddio fideos arddangos gwybodaeth a pheiriannau tocynnau awtomatig, yn enwedig mewn gorsafoedd heb eu staffio yng Nghymru? (WAQ8395)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae hwn yn fater i reolwyr trenau a gorsafoedd teithwyr. Yr ydym wedi pwysleisio yn ein pecyn i ymgeiswyr am fasnachfraint yn y Cynulliad i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol cysgodol, a'r ymgeiswyr hynny sydd wedi cymhwyso ymlaen llaw ar gyfer Masnachfraint Cymru a'r Gororau, ein bod yn disgwyl i wybodaeth fod ar gael i bawb, gan ystyried anghenion teithwyr anabl yn benodol.

Cyhoeddodd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol cysgodol yn ddiweddar, drwy ei ddatganiad allbwn cynyddol, y bydd yn gwella 39 o orsafoedd yng Nghymru at y safon sylfaenol, o leiaf. Mae'r rhaglen yn cynnwys ystafelloedd aros a mannau i gysgodi, toiledau, systemau annerch y cyhoedd a systemau gwybodaeth a theledu cylch cyfyng.

Mae'r rheolydd rheilffyrdd wedi cyhoeddi cod ymarfer, 'Meeting the Needs of Disabled Passengers', sydd yn rhoi manylion am y safonau y mae'n disgwyl y bydd y rheolwyr trenau a gorsafoedd teithwyr yn eu harddel. Caiff y cod ei gryfhau drwy ddarparu amod trwydded gwasanaethau i deithwyr anabl, a fyddai'n mynnu bod y rheolwyr yn llawn ystyried y cod wrth sefydlu a cydymffurfio â'u polisïau amddiffyn pobl anabl.

Mae gan gwmnïau masnachol gyfrifoldeb i gydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

### Cyfrifon ar Sail Adnoddau

**Dafydd Wigley:** O ba ddyddiad y bu'n rhaid i'r Cynulliad lunio ei gyfrifon ar sail adnoddau a faint o wahaniaeth wnaeth hyn i'r lefel gwariant a ddangosir yng nghyfrifon y Cynulliad ar gyfer (a) 1999-2000; (b) 2000-2001; (c) 2001-2002? (WAQ8429)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad wedi gorfod cynhyrchu cyfrifon adnoddau ers ei sefydlu ar 7 Mai 1999. Mae'r set cyntaf o gyfrifon, a oedd yn cwmpasu 7 Mai 1999 i 31 Mawrth 2000, newydd gael eu harchwilio ac maent yn cofnodi mai £5,401 miliwn oedd cost net gweithredu. Mae hynny'n golygu tua £343 miliwn yn fwy na gwariant arian net o £5,058 miliwn. Mae'r Trysorlys yn cyflwyno cyllidebau adnoddau o 2001-02 ymlaen; £9,693 miliwn yw'r gyllideb ddrafft ar sail adnoddau ar gyfer y flwyddyn honno, sydd yn cynnwys £915 miliwn ar gyfer talu am gostau ychwanegol eitemau o adnoddau. Ni osodwyd cyllideb adnoddau ar gyfer 2000-01.

## Monitro Rhwymedigaethau Anabledd

**Christine Chapman:** A yw Edwina Hart yn bwriadu monitro awdurdodau lleol yng Nghymru ynglŷn â'u rhwymedigaethau o dan Reoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Tacsis) (Cario Cŵn Tywys etc) (Lloegr a Chymru) 2000, a hefyd o dan adran 37 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995? (WAQ8624)

**Edwina Hart:** Cyfrifoldeb yr awdurdod trwyddedu fydd gorfodi'r dyletswydd newydd a bydd yn cael ei gynnwys yn y drefn bresennol ar gyfer trwyddedu tacsis. Bydd methu â chydymffurfio â'r dyletswydd i gludo cŵn tywys, cŵn clywed a chŵn eraill sydd yn rhoi cymorth penodedig, yn drosedd dan adran 37 (4), ac yn agored i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 3 (£1,000 ar hyn o bryd) ar raddfa safonol euogfarn.

Nid yw hwn yn fater a ddatganolwyd ac nid oes cynlluniau i fonitro awdurdodau lleol o ran eu dyletswyddau dan y Ddeddf.

## Diogelwch mewn Arddangosfeydd Tân Gwyllt

**Nick Bourne:** A oes cynlluniau i wneud arddangosfeydd tân gwyllt cyhoeddus awdurdodau lleol yn fwy diogel ac i dynhau'r canllawiau, yn dilyn y ddamwain ddiweddar yn Noc Penfro? (WAQ8635)

**Edwina Hart:** Nid yw trwyddedu a diogelwch arddangosfeydd tân gwyllt cyhoeddus yn fater a ddatganolwyd. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch ydyw. Gwn, fodd bynnag, fod Cyngor Sir Penfro a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i amgylchiadau'r ddamwain yn yr arddangosfa tân gwyllt a drefnwyd gan Gyngor Tref Sir Benfro, ond a gafodd ei gynnal a'i reoli gan gontractwr preifat. Gwneir y penderfyniad ynghylch a ddylid tynhau'r canllawiau presennol yn sgîl canfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw.

## Comisiwn Tai

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd ynghylch sefydlu comisiwn tai ar gyfer Cymru gyfan? (WAQ8637)

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch, yr ydym eisoes wedi dadlau ar y papur ymgynghorol drafft ar strategaeth dai genedlaethol ar gyfer Cymru ar 28 Tachwedd. Cyhoeddir y papur hwn ddechrau'r flwyddyn newydd ar gyfer cyfnod ymgynghori o dri mis. Ar ôl derbyn ymatebion i'r papur, byddaf yn cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol yn yr haf. Yn y cyfamser, yr wyf wedi sefydlu comisiwn digartrefedd newydd i ystyried camau pellach i fynd i'r afael â digartrefedd, ac i ddilyn trywydd argymhellion yr adroddiad 'Cysgu Allan yng Nghymru' ac argymhellion perthnasol grwpiau tasg y strategaeth dai. Mae cylch gorchwyl y comisiwn a'i aelodau ar y wefan.

## Strategaeth ar Ddigartrefedd

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Edwina Hart wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu strategaeth ar ddigartrefedd? (WAQ8638)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi sefydlu comisiwn digartrefedd i ddilyn trywydd ein camau i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae cylch gorchwyl y comisiwn ar y safle ar y we. Un o'i dasgau fydd datblygu model o strategaeth ddigartrefedd i awdurdodau lleol. Yr wyf hefyd wedi clustnodi £3.6 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu mwy strategol i fynd i'r afael â digartrefedd. Ariennir wyth o awdurdodau ar hyn o bryd i ddatblygu strategaethau o'r fath.

## Treth ar Werth

**Dafydd Wigley:** Ar ba eitemau o wariant y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn talu treth ar werth heb allu hawlio ad-daliad o'r taliadau hyn gan Dollau Tramor a Chartref yn y flwyddyn bresennol; beth yw'r

amcangyfrif o'r gost flynyddol o hyn, a beth yw'r amcangyfrif o'r ffigurau hyn ar gyfer 2001-02 a 2002-03? (WAQ8675)

**Edwina Hart:** Ni all adrannau'r Llywodraeth adfer TAW ac fe'u hariennir gan gadw hynny mewn cof. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tegwch gyda chyrff y sector preifat o ran cyflwyno gwasanaethau lle gellir eu darparu un ai yn fewnol neu eu contractio i mewn, gwneir y ddarpariaeth dan Adran 11 Deddf Gyllid 1984 (sydd yn diweddaru Deddf TAW 1983) i alluogi adrannau'r Llywodraeth i adfer y TAW y maent yn ei dalu ar rai gwasanaethau a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Gan nad oes modd adfer TAW, ar wahân i'r amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod, ni chedwir cofnodion ar wahân o'r TAW a dalwyd gan y Cynulliad. Yr oedd y Cynulliad wedi adfer tua £9.1 miliwn rhwng 1 Gorffennaf 1999 a 31 Mawrth 2000. £15.7 miliwn yw ein hamcangyfrif o'r TAW y gellir ei hadfer ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000-01.

### Cyllid Bellwin (Swm y Ceisiwyd Amdano)

**David Davies:** Faint o gyllid Bellwin y ceisiwyd amdano yng Nghymru? (WAQ8693)

**Edwina Hart:** Ni chyflwynwyd ceisiadau ffurfiol ar gyfer cymorth Bellwin hyd yn hyn gan awdurdodau lleol. Disgwyliaf dderbyn yr hawliadau cyntaf ddechrau Ionawr.

Yn dilyn cyfarfodydd rhwng fy swyddogion a chynrychiolwyr o chwe awdurdod yr effeithiwyd arnynt yn ddrwg iawn, yr wyf bellach wedi penderfynu ymestyn y cyfnod a ddaw dan gynllun Bellwin hyd at ddiwedd Mawrth 2001. Anfonwyd llythyr yn cadarnhau'r manylion hyn, gyda ffurflenni hawlio, at yr awdurdodau hynny sydd wedi dangos eu bod yn dymuno cyflwyno ceisiadau.

### Cyllid Bellwin (Swm y Ceisiwyd Amdano)

**David Davies:** Faint o gyllid Bellwin y mae pob awdurdod lleol wedi ceisio amdano, a beth yw'r cyfanswm? (WAQ8694)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig WAQ8693.

### Cyllid Bellwin (Ceisiadau)

**David Davies:** A wnaiff Edwina Hart restru faint o'r awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi ceisio am gyllid Bellwin? (WAQ8695)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig WAQ8693.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Siaradwyr Cymraeg

**Nick Bourne:** A oes ffigurau ar gael ar gyfer y nifer o bobl sydd yn siarad Cymraeg (i) fel mamiaith, a (ii) fel ail iaith yng Nghymru? (WAQ8653)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae 'Arolwg Cymdeithasol Cymru: Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg' 1992 yn nodi bod 21.5 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a bod y Gymraeg yn famiaith i 55.3 o'r rheini. Mae copi cyfeirio o'r arolwg ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

### Bwrdd Ffilm i Gymru

**Nick Bourne:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sefydlu bwrdd ffilm i Gymru? (WAQ8654)

**Jenny Randerson:** Nid oes cynigion ar gyfer sefydlu bwrdd ffilm i Gymru wedi dod ger fy mron i.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

**Nick Bourne:** A wnaiff Jenny Randerson gyhoeddi manylion yr adolygiad sydd yn mynd rhagddo o Gyngor Celfyddydau Cymru? (WAQ8655)

**Jenny Randerson:** Comisiynodd fy rhagflaenydd adolygiad rheoli annibynnol o'r cyngor, a ddaeth i ben ac a gyhoeddwyd ym Medi 2000. Mae cyngor y celfyddydau wedi derbyn yn fras argymhellion yr adroddiad ac maent wedi bod yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith.

Byddwn yn fodlon i gyngor y celfyddydau gyhoeddi'r cynllun gweithredu pan fo'r fersiwn derbynol ar gael.

## Dynodi Gŵyl Ddewi yn Ŵyl Banc

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae Jenny Randerson wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ar gyfer dynodi Gŵyl Ddewi yn ŵyl banc genedlaethol yng Nghymru? (WAQ8656)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar gyfer dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc cenedlaethol yng Nghymru.